




Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

Gorffennaf 2019

**PC 42: Asesiad o Effaith y Strategaeth a
Ffefrir ar y Gymraeg**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln. Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld ym mhrif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor, a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech siarad â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynghylch unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181/ 575445 / 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Rhoddir trwydded anghyfyngedig ichi, yn rhydd rhag breindal, a dirymiadwy i weld y Data Trwyddedig i ddibenion anfasnachol dros y cyfnod y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn eu darparu. Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu na darparu'r Data Trwyddedig mewn unrhyw ffordd arall i drydydd partïon ar unrhyw ffurf; a bydd hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon wedi'u neilltuo i'r Arolwg Ordnans.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
1.1	Trosolwg.....	4
1.2	Y Cefndir	4
2.	Y Gymraeg yng Nghonwy.....	6
3.	Polisi a deddfwriaeth genedlaethol y Gymraeg.....	14
4.	Cynllunio a'r Gymraeg	16
4.1	Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol.....	16
4.2	Ardaloedd diffiniedig.....	18
4.3	Mesurau lliniaru mewn canllawiau cenedlaethol.....	19
4.4	Arwyddion.....	19
4.5	Cynllunio a'r Gymraeg: y Ffordd Ymlaen.....	20
5.	Y Strategaeth a Ffefrir yng Nghonwy, 2019-33.....	20
5.1	Cyflwyniad.....	20
5.2	Y safleoedd a neilltuwyd yn y Strategaeth a Ffefrir	23
5.3	Polisi cynllunio o ran y Gymraeg ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir.....	24
5.4	Cynllun Cynnwys Cymunedau.....	25
5.5	Ardaloedd leithyddol Sensitif.....	26
6.	Asesiad o effaith y Strategaeth a Ffefrir ar y Gymraeg	28
6.1	Cyflwyniad.....	28
6.2	Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar safleoedd a neilltuwyd	28
6.3	Asesiad lefel uchel o'r effaith ar y Gymraeg.....	34
6.4	Themâu a nodwyd yn gysylltiedig â'r Gymraeg wrth ddadansoddi'r Strategaeth a Ffefrir	35
6.5	Mesurau Lliniaru ar ôl ymgynghori	39
7	Monitro.....	40
	Atodiad 1.....	41
	Atodiad 2 - Asesiadau effaith y Meysydd Polisi Strategol â Blaenoriaeth yn y Strategaeth a Ffefrir ar y Gymraeg.....	63
	Atodiad 3 - Rhestr o Gyfeiriadau a Gwybodaeth Bellach	73

1. Cyflwyniad

1.1 Trosolwg

- 1.1.1 Dyma un o nifer o bapurau cefndir a gyflwynir i gyd-fynd â Strategaeth a Ffefrir Cyngor Bwrdeistref Conwy, 2019. Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi'r Strategaeth a Ffefrir ganddo, bydd yn rhaid iddo gynnwys asesiad o effaith y Strategaeth honno ar y Gymraeg. Mae'r ddogfen hon yn darparu asesiad effaith iaith Gymraeg lefel uchel i gyd-fynd â chyhoeddi'r Strategaeth a Ffefrir.
- 1.1.2 Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 'Y Gymraeg' sy'n cynnwys canllawiau statudol yn ogystal â pholisi cynllunio'r Cyngor o ran y Gymraeg.

1.2 Y Cefndir

- 1.2.1 Comisiynwyd RHD Consultancy Ltd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gynnal asesiad lefel uchel o effaith y Strategaeth a Ffefrir ganddo ar y Gymraeg cyn cyhoeddi'r strategaeth honno ym mis Gorffennaf 2019.
- 1.2.2. Roedd y gwaith yn cynnwys dau gam: y cyntaf oedd adolygu'r cyd-destun o ran deddfwriaeth a pholisi a chyflwyno adroddiad i Gyngor Bwrdeistref Conwy ar y newidiadau hyn. Ers cyhoeddi'r CDLI diwethaf, cafwyd sawl datblygiad pwysig o ran deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi dod i rym, ynghyd â'r gofyniad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gydymffurfio â'r safonau newydd ar gyfer y Gymraeg. Ar ben hynny, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi cael ei chyflwyno ac yn cynnwys goblygiadau o ran cynllunio a ffyrdd o weithio, ac o ran sicrhau iechyd a lles y Gymraeg a diwylliant Cymru. Yn ogystal â hynny, mae Polisi Cynllunio Cymru (2018) wedi cael ei gyhoeddi, yn ogystal â chanllawiau cynllunio cenedlaethol newydd ar gyfer y Gymraeg, Nodyn Cyngor Technegol 20.
- 1.2.3 Mae cam cyntaf y gwaith wedi'i gwblhau ac yn cynnwys cyflwyno argymhellion i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eu hystyried o ran polisi cynllunio diwygiedig ar gyfer y Gymraeg.
- 1.2.4 Yr ail gam oedd cynnal asesiad lefel uchel o effaith y cynigion yn y Strategaeth a Ffefrir ar y Gymraeg, a diben yr adroddiad hwn yw amlinellu canlyniadau'r ffrwd waith neilltuol honno.

- 1.2.5 Cynhaliwyd asesiad hwn o effaith ar y Gymraeg rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2019. Fe'i lluniwyd drwy ddefnyddio amryw o ffynonellau o dystiolaeth, gan gynnwys data'r Cyfrifiad, bwletinau ystadegol ac adroddiadau ymchwil, ynghyd â lliaws o bapurau ac adroddiadau a oedd yn cefnogi datblygiad y Strategaeth a Ffefrir, ac adolygiad ehangach o ddeunyddiau ysgrifenedig. Ceir rhestr lawn o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ynghyd â dolenni a llyfryddiaeth ddefnyddiol yn atodiad yr adroddiad hwn.
- 1.2.6 Defnyddiwyd sawl dull o gasglu a dadansoddi data er mwyn llywio'r asesiad effaith. Amlinellir tair prif gydran y gwaith isod:

Ymchwil a dadansoddi wrth ddesg:

- i. Adolygiad o ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol - a safbwynt cynllunio a hefyd o ran y Gymraeg - Polisi Cynllunio Cymru, TAN 20, TAN 6, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2005, Cymraeg 2050, Safonau Iaith Cymru (ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy)
- ii. Dadansoddiad o ddogfennau - Y Strategaeth a Ffefrir (drafft i'w gyhoeddi Gorffennaf 2019), Cynllunio a'r Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005), BP07 Papur Cyflenwad Tir ar gyfer Tai, Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghonwy, dadansoddiad Uned Ymchwil Conwy, Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg, Cynllun Llesiant.
- iii. Dadansoddiad ystadegol - Cyfrifiad 2011, Adroddiad Cymraeg yr Uned Ymchwil, Arolwg Defnydd Iaith y Comisiynydd Iaith, Bwletinau Ystadegol y SYG, bwletinau StatsCymru ar y Gymraeg, adroddiadau tai, adroddiad data cyflogaeth, ardaloedd amddifadedd Cymru, adroddiadau teithio i'r gwaith, data ar y galw am ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- iv. Adolygiad o ddeunydd ysgrifenedig - gwaith darllen ehangach ar y Gymraeg a hunaniaeth, ymdeimlad o le a chreu lleoedd, y broydd Cymraeg a chymunedau a sefydliadau Cymraeg.

Adolygu a mapio'r polisi cynllunio presennol o ran y Gymraeg â chanfyddiadau ymchwil desg:

- v. Mapio'r polisi cynllunio presennol o ran y Gymraeg â chanfyddiadau'r gwaith dadansoddi uchod.
- vi. Anodi polisi presennol ag argymhellion i'w hystyried yn fuan.

Asesu effaith y Strategaeth a Ffefrir

- vii. Nodi'r pum safle neilltuedig ac asesu'r effaith yn seiliedig ar ddadansoddiad ystadegol
- viii. Cwblhau asesiad lefel uchel o Ddatganiadau Polisi Strategol yn erbyn arfer gorau a gofynion cyfreithiol
- ix. Cwblhau'r pecynnau cymorth a'r rhestr wirio asesu effaith 18 pwynt
- x. Llunio adroddiad ar asesiad lefel uchel o'r effaith ar y Gymraeg
- xi. Profi a chymhwyso argymhellion yn erbyn y Strategaeth a Ffefrir:


- 1.2.7 Mae polisi cynllunio diwygiedig hefyd yn cael ei gwblhau ar gyfer y Gymraeg er mwyn cyfrannu at broses y CDLI.
- 1.2.8 Yn dilyn yr asesiad effaith lefel uchel a gynhaliwyd o'r Strategaeth a Ffefrir yn y cam hwn, bydd gwaith pellach ar effeithiau a mesurau lliniaru yn cael ei gyflawni ar y safleoedd neilltuedig hynny a nodwyd drwy'r asesiad hwn.
- 1.2.9 Ar ben hynny, er bod canllawiau TAN 20 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol ddilyn ymagwedd sy'n seiliedig ar gynllun wrth asesu effaith yn y cam hwn, nodir hefyd na all y cynllun ragweld yr holl ddatblygiadau, ac y bydd felly angen cynnal asesiad o effaith hap-safleoedd graddfa fawr ar yr adeg briodol.

2. Y Gymraeg yng Nghonwy

- 2.1 Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliant Conwy a Chymru. Yng Nghyfrifiad 2011, amcangyfrifwyd bod 30,600 o blant a phobl 3 oed neu drosodd ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn gyfwerth â 27.4% o boblogaeth y fwrdeistref sirol.
- 2.2 Gellir cymharu hyn â'r ganran o holl boblogaeth Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg, sef 19%. Mae Bwrdeistref Sirol Conwy yn bumed o blith holl awdurdodau unedol Cymru o ran y gyfran o siaradwyr Cymraeg, ar ôl Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Yn rhifiadol, mae'r Fwrdeistref Sirol yn y chweched safle, ac yn cynnwys 5.4% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru.

- 2.3 Dywedodd 19% o bobl eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011, ond yn 1901 roedd hanner y boblogaeth yn medru'r iaith. Dros y ganrif ddiwethaf, mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng. Yn debyg i'r rhan helaeth o Gymru, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy wedi gostwng rhwng pob Cyfrifiad. Yn 1981, roedd 33% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, o gymharu â 29.2% yn 2001 a 27.4% yn 2011.

Chart 1.2: change in the proportion of Welsh speakers over time
Source: Census of Population, ONS



- 2.4 Rhwng 2001 a 2011 gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol o 31,050 i 30,600 - gostyngiad o 450 neu -6.2%. Fel cyfran, roedd hyn yn ostyngiad o 29.2% o'r boblogaeth 3+ oed yn 2001 i 27.4% yn 2011. Mae'r gostyngiad hwn wedi parhau dros y pedwar Cyfrifiad diwethaf.

Tabl 1: Siaradwyr Cymraeg 1981 i 2011 Ffynhonnell: Cyfrifiadau 2001 a 2011, SYG

	Bwrdeistref Sirol Conwy		Cymru	
	Nifer	%	Nifer	%
Cyfrifiad 2011	30,600	27.4%	562,016	19.0%
Cyfrifiad 2001	31,042	29.2%	575,640	20.5%
Cyfrifiad 1991	31,431	30.6%	508,098	18.7%
Cyfrifiad 1981	30,276	32.7%	508,207	19.0%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau 2001 a 2011, SYG

- 2.5 Fodd bynnag, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng hefyd, yn ogystal â'r ganran. Rhwng 2001 a 2011, gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg o 31,298 i 30,600. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y twf cyffredinol ym mhoblogaeth Conwy

dros yr un cyfnod o 10 mlynedd - o 106,316 i 111,724. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg felly yn gostwng, a'r di-Gymraeg yn cynyddu. Ceir colled net o siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy, fel y dangosir yn y tabl isod.

Tabl 2: Newid yn y niferoedd a'r canrannau a oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011 ym mwrdeistref sirol Conwy.

2001				2011			
Yn gallu siarad Cymraeg	Yn methu siarad Cymraeg	Cyfanswm	%	Yn gallu siarad Cymraeg	Yn methu siarad Cymraeg	Cyfanswm	%
31,298	75,018	106,316	29.4%	30,600	81,124	111,724	27.39%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau 2001 a 2011, SYG

- 2.6 Fodd bynnag, ni chafwyd gostyngiad yn y gallu i siarad Cymraeg ym mhob ardal yng Nghonwy. Rhwng 2001 a 2011, gwelwyd cynnydd cyffredinol mewn siaradwyr Cymraeg ymhlith y boblogaeth mewn pedair ward etholiadol, o ran nifer a chyfran - Penrhyn (Llandudno), Bae Cinmel, Llandrillo yn Rhos ac Eglwysbach – gwelwyd cynnydd rhifiadol yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn 11 o adrannau etholiadol eraill, er i'r gyfran o siaradwyr ostwng¹.

Tabl 3: wardiau etholiadol lle cafwyd cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011

Adran etholiadol Conwy	Newid rhifiadol	Newid canrannol
Llandrillo yn Rhos	114	0.4%
Bae Cinmel	72	0.4%
Penrhyn	70	0.9%
Rhiw	70	-1.2%
Betws Yn Rhos	65	-1.0%
Pant-yr-afon / Penmaenan	63	-4.1%
Crwst	49	-3.7%

¹Uned Ymchwil Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awst 2013), Y Gymraeg yng Nghonwy – bwletin ymchwil ad hoc

Eglwysbach	32	0.1%
Deganwy	31	-0.7%
Gele	19	-0.6%
Llangernyw	18	-3.5%
Marl	16	-0.6%
Llansannan	15	-2.6%
Gŵyr	13	-2.9%
Tywyn	11	-0.2%
Llansanffraid	-26	0.2%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau 2001 a 2011, SYG

- 2.7 Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau oedran. Mae'r gallu i siarad Cymraeg ar ei amlycaf ymhlith plant oedran ysgol - yn gyffredinol, gall 49.2% o blant a phobl ifanc 5-15 siarad Cymraeg. Pobl 50-69 oed sydd â'r gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg (dim ond 20.4%), ond hyd yn oed yn y grŵp oedran hwn, mae Conwy yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru.
- 2.8 O'r holl ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghonwy, mae 16.4% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a 21.7% arall o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgolion sy'n darparu cyfran sylweddol o'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ben hynny, mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dysgu Cymraeg nes iddynt droi'n 14 oed yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol (mewn ysgolion cyfrwng Saesneg).

Tabl 4: disgyblion fesul math o ysgol ym Mwrdeistref Sirol Conwy, 2013
Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion²

Pob disgybl	15,903	-
Disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg	2,602	16.4%
Disgyblion mewn ysgolion dwyieithog	692	4.4%
Disgyblion mewn ysgolion dwy ffrwd	412	2.6%
Disgyblion mewn ysgolion Saesneg (gyda chyfran sylweddol o'r ddarpariaeth yn Gymraeg)	2,343	14.7%
Disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg	9,854	62.0%

² Uned Ymchwil Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awst 2013), Y Gymraeg yng Nghonwy – bwletin ymchwil ad hoc

- 2.9 Ceir siaradwyr Cymraeg sy'n byw ac yn gweithio yn Gymraeg, ac sy'n defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r adran hon yn dangos bod cynifer â 70% yn gallu siarad Cymraeg mewn rhai wardiau etholiadol, a bod pob ward yn cynnwys siaradwyr Cymraeg.

Tabl 5: Canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl ward etholiadol, Conwy

Ward etholiadol Conwy	% yn gallu siarad Cymraeg
w05000149: Uwchaled	70.8
W05000132: Llangernyw	65.8
W05000128: Gŵyr	63.5
W05000134: Llansannan	63.0
W05000148: Uwch Conwy	60.7
W05000121: Crwst	59.6
W05000123: Eglwysbach	54.3
W05000113: Betws-y-Coed	50.3
W05000139: Pandy	48.4
W05000146: Trefriw	45.6
W05000114: Betws Yn Rhos	45.4
W05000115: Bryn	45.0
W05000116: Caerhun	41.9
W05000133: Llansanffraid	35.8
W05000140: Pant-yr-afon / Penmaenan	34.1
W05000117: Capelulo	33.3
W05000915: Marl	29.8
W05000119: Conwy	28.7
W05000917: Pensarn	28.4
W05000124: Eirias	23.5
W05000918: Tudno	23.4
W05000916: Penrhyn	22.9
W05000914: Deganwy	22.8
W05000125: Gele	22.7
W05000137: Mochdre	22.5
W05000135: Llysfaen	21.1
W05000143: Pentre Mawr	21.1


W05000118: Colwyn	20.7
W05000130: Llanddulas	20.5
W05000126: Glyn	19.7
W05000913: Craig-y-Don	18.7
W05000131: Llandrillo yn Rhos	18.4
W05000138: Mostyn	18.4
W05000144: Rhiw	16.7
W05000127: Gogarth	16.0
W05000112: Pensarn Abergele	11.6
W05000129: Bae Cinmel	11.5
W05000145: Tywyn	10.8

Ffynhonnell: Bwletin Cyfrifiad StatsCymru 2011, Y Gymraeg, Llywodraeth Cymru

- 2.10 Ar y cyfan mae mynychder siaradwyr Cymraeg yn cynyddu tua'r gorllewin, ac wrth i rywun deithio tuag at y tir oddi wrth lain fwy poblog yr arfordir. Mae'r siaradwyr Cymraeg ar eu huchaf yn wardiau etholiadol gwledig y de, fel Uwchaled (71% yn siarad Cymraeg) ac ar eu hisaf yng nghymuned arfordirol Tywyn a Bae Cinmel yn y dwyrain (llai na 12% yn siarad Cymraeg).
- 2.11 Er bod y canrannau ar eu huchaf mewn ardaloedd gwledig ac yn ardaloedd y de orllewin, o safbwynt rhifiadol ceir llawer mwy o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd ac ynddynt fwy o boblogaeth, gan gynnwys ardaloedd trefol. Mae Llandudno yn cynnwys 4,079 o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, ac ar ei sodlau y mae Conwy lle gall 3,908 o bobl siarad Cymraeg. Ym Mae Colwyn, gall 1,897 o bobl siarad Cymraeg, ac mae hynny i gyfrif am 17.9% o'r boblogaeth (ar sail data Cyfrifiad 2011). Ac mae Llandrillo yn Rhos yn cynnwys 1,366 o siaradwyr Cymraeg, sef 18.4%. Ar y map isod, defnyddir y gwyrdd tywyllaf i ddangos y dwysedd uchaf o ran poblogaeth.

Map 1.1: proportion of Welsh speakers in Conwy County Borough, by electoral division (ward)

Source: 2011 Census table KS207WA, ONS



However, though the proportions of Welsh speakers are highest in the rural electoral divisions, numerically there are many more Welsh speakers in the urban areas than in the more sparsely populated rural areas. Rhos-on-Sea has over 1,350 Welsh speakers though that makes up only 18.4% of the population. Uwchale, which is proportionately the most Welsh speaking electoral division has about 400 fewer

- 2.12 Mae'r adran nesaf hon yn cyflwyno sgiliau'r Gymraeg yng Nghonwy fesul ardal cyngor cymuned.

Tabl 6: Sgiliau Cymraeg yn ôl ardal cyngor cymuned, 2011 ³

	All people aged 3 and over	No skills in Welsh	Understands spoken Welsh only*	Can speak Welsh	Can speak, read & write Welsh	Other skill combination
Wales	2,955,841	73.3%	5.3%	19.0%	14.6%	6.7%
Conwy County Borough	111,724	60.6%	9.5%	27.4%	20.6%	9.2%
Abergele	10,279	80.4%	6.8%	11.6%	7.7%	5.1%
Betws-y-Coed	542	36.7%	11.2%	50.3%	42.7%	9.4%
Betws yn Rhos	1,020	43.7%	9.0%	45.4%	36.3%	11.0%
Bro Garmon	635	39.2%	13.5%	45.0%	32.4%	14.9%
Bro Machno	596	44.6%	11.2%	41.9%	33.4%	10.8%
Caerhun	1,263	49.1%	14.6%	33.3%	23.4%	13.0%
Capel Curig	198	66.1%	9.9%	20.7%	15.2%	8.8%
Cerrigydrudion	711	54.0%	14.5%	28.7%	20.4%	11.2%
Colwyn Bay	10,605	70.0%	8.9%	18.7%	13.7%	7.4%
Conwy	14,274	26.1%	12.0%	59.6%	46.2%	15.7%
Dolgarrog	427	65.4%	9.5%	22.8%	16.6%	8.4%
Dolwyddelan	459	37.0%	7.4%	54.3%	44.9%	10.6%
Eglwysbach	914	62.5%	11.1%	23.5%	17.3%	9.1%
Henryd	704	67.7%	7.3%	22.7%	17.3%	7.7%
Llanddoded and Maenan	595	68.6%	9.1%	19.7%	14.1%	8.2%
Llanddulas & Rhyd-y-Foel	1,504	72.9%	9.0%	16.0%	11.8%	6.3%
Llandudno	20,111	20.9%	13.2%	63.5%	51.1%	14.8%
Llanfairfechan	3,523	81.7%	5.0%	11.5%	7.4%	5.9%
Llanfairtalhaearn	1,044	67.2%	9.7%	20.5%	14.1%	9.0%
Llanfihangel Glyn Myfyr	184	71.3%	8.0%	18.4%	13.0%	7.7%
Llangemyw	1,043	28.0%	5.5%	65.8%	57.3%	9.1%
Llangwm	462	49.9%	11.8%	35.8%	26.5%	11.8%
Llanefydd	571	29.6%	6.5%	63.0%	56.5%	7.4%
Llanrwst	3,187	66.2%	9.7%	21.1%	14.6%	9.6%
Llansanffraid Glan Conwy	2,139	56.1%	10.8%	29.8%	21.8%	11.3%
Llansannan	1,299	65.3%	9.6%	22.5%	15.9%	9.3%
Llysfaen	2,621	68.1%	10.8%	18.4%	12.6%	8.5%
Mochdre	1,847	37.5%	11.9%	48.4%	34.3%	16.3%
Old Colwyn	7,844	49.2%	13.6%	34.1%	24.6%	12.6%
Penmaenmawr	4,210	64.5%	9.8%	22.9%	16.9%	8.7%
Pentrefoelas	345	53.6%	14.3%	28.4%	20.0%	12.1%
Rhos-on-Sea	7,422	68.1%	8.1%	21.1%	15.6%	8.2%
Towyn and Kinnel Bay	8,194	72.2%	8.2%	16.7%	11.9%	7.6%
Trefriw	761	82.8%	5.0%	10.8%	6.9%	5.3%
Ysbyty Ifan	191	38.6%	13.0%	45.6%	33.1%	15.4%

* 'Understands spoken Welsh only' means that the person understands spoken Welsh but has no other skills in the language.

³ Ffynhonnell: Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA, SYG

2.1.13 Cafodd yr ardaloedd lle'r oedd 60% neu fwy yn gallu siarad Cymraeg eu disgrifio fel broydd Cymraeg (Atchison, J a Carter, H (1998). Mae'r rhain yn ardaloedd pwysig lle defnyddir y Gymraeg yn rhan o fywyd bob dydd, a lle mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o wead y gymuned. Yn yr astudiaethau a'r adroddiadau mwyaf diweddar, bydd ardaloedd lle mae dros 50% yn siarad Cymraeg bellach yn cael eu disgrifio fel broydd lle mae'r Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol, ac yn cael ei defnyddio'n fynych mewn bywyd bob dydd. Mae'r ardaloedd hyn yn cyfrannu at strategaeth y Gymraeg yng Nghonwy a hefyd at bolisi cenedlaethol Cymraeg 2050. Mae Conwy yn cynnwys llawer o ardaloedd felly, ac fe'u rhestrir yn eu tro yn Nhabl 7.

Tabl 7: Cyngorau Cymuned lle mae dros 60% yn gallu siarad Cymraeg

Cyngor Cymuned	Nifer yn gallu siarad Cymraeg	Canran yn gallu siarad Cymraeg
Ysbyty Ifan	151	79.1%
Cerrigydrudion	549	77.2%
Pentrefoelas	241	69.9%
Llanfihangel Glyn Myfyr	128	69.6%
Llangernyw	672	64.4%
Llansannan	831	64.0%
Llanddoded a Maenan	371	62.4%
Llangwm	284	61.5%
Llanrwst	1,943	61.0%
Llanefydd	348	60.9%

3. Polisi a deddfwriaeth genedlaethol y Gymraeg

3.1 Mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, *Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-2017* yn rhestru chwe maes strategol. Fel maes strategol, mae cymuned yn arbennig o berthnasol i'r system cynllunio defnydd

tir. Y nod strategol yw cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned a'r defnydd o'r iaith oddi mewn iddi.

- 3.2 Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) fel offeryn i reoli'r defnydd o dir a datblygiad cynaliadwy. Mae'r strategaeth yn cynnig cynnal adolygiad ar y cyd â rhanddeiliaid o'r modd y mae cymunedau Cymraeg eu hiaith wedi cymryd rhan ym mhroses y CDLI, ac a ellid hwyluso'r cyfranogiad hwnnw'n well yn y dyfodol. Rhan o hyn fydd nodi sut yr aethpwyd i'r afael â materion y Gymraeg ac ystyried a oes angen rhoi canllawiau ychwanegol ar sut i roi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth baratoi CDLlau.
- 3.3 Mae'r strategaeth hefyd yn anelu i nodi'r rhannau o Gymru lle ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg, ond lle mae'r iaith bellach dan fygythiad. Yng Nghonwy, ceir wardiau yn ne'r Cynllun lle gall dros 50% siarad Cymraeg, ond le bo'r niferoedd wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn ardaloedd pwysig yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer y Gymraeg.
- 3.4 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050⁴ – y strategaeth genedlaethol ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Yr oedd yn cynnwys targed cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050, ac mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ran i'w chwarae er mwyn cyfrannu at y strategaeth honno. Ar ben hynny, mae'r awdurdod lleol wedi llunio strategaeth ar gyfer y Gymraeg sy'n cynnwys targed i sicrhau cynnydd o 2% yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn yr ardal dros y pum mlynedd nesaf.
- 3.5 Mae'n bosibl mai newidiadau demograffig, patrymau ymfudo a ffactorau addysgol sydd wrth wraidd y gostyngiad cyfrannol yng Nghonwy ac mewn ardaloedd eraill ledled Cymru. Ymhlith y ffactorau eang hyn y mae allfudiad siaradwyr Cymraeg, mewnfudiad y di-Gymraeg, a sefyllfaoedd lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei throsglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r nesaf. Ffactor arall a awgrymwyd yw'r system cynllunio defnydd tir, er bod y graddau y mae hynny'n ffactor yn destun dadl.
- 3.6 Gall datblygiad newydd gael effeithiau buddiol ac andwyol ar y Gymraeg. Mae'n bosibl y ceir effeithiau buddiol pan fydd datblygiad yn annog siaradwyr Cymraeg i aros yn eu cymunedau, er enghraifft tai fforddiadwy i fodloni angen lleol mewn ardal lle siaredir Cymraeg yn bennaf, neu os yw'r datblygiad yn cefnogi hyfywedd cyfleusterau'r pentref,

⁴ Llywodraeth Cymru (2017) - Cymraeg 2050 - <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-welsh-language-strategy.pdf>

fel yr ysgol. Mae'n bosibl y ceir effeithiau andwyol pan fydd nifer anghymesur o bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn symud i mewn i gymuned. Yn aml gall hyn arwain at effeithiau cronrus, er enghraifft, drwy leihau'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr Cymraeg.

- 3.7 Fel y dangosir yn yr adran nesaf, mae gan y system gynllunio ran bwysig i'w chwarae er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio.

4. Cynllunio a'r Gymraeg

4.1 Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol

- 4.1.1 Mae adran 70 (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA) yn egluro y gellir rhoi ystyriaeth i agweddau sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg wrth benderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r cais. Gall hyn fod yn berthnasol i unrhyw gais yn unrhyw ran o Gymru. Mae'r ddarpariaeth yn golygu bod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol, ond nid yw'n rhoi unrhyw bwys ychwanegol ar y Gymraeg ar draul unrhyw ystyriaeth arall berthnasol.
- 4.1.2 Mae'r system gynllunio yn gweithredu oddi mewn i ddarpariaethau deddfwriaeth cynllunio gwlad a thref a deddfwriaeth arall ddomestig ac Ewropeaidd. Mewn perthynas â'r Gymraeg a chynllunio, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 yn berthnasol, a dylai penderfynwyr fod yn ystyriol o'r gofynion cyfreithiol ehangach.
- 4.1.3 Mae Cynllun Gofodol Cymru (2004; diweddarwyd 2008) yn cynnig dull o gydgyssylltu gweithgarwch Llywodraeth Cymru; o ran cynllunio, mae'n un o'r deg prawf cadernid y dylid bod yn ystyriol ohonynt wrth greu CDLI. Mae'r rhan fwyaf o Gonwy oddi mewn i Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru yn y Cynllun, ac yn yr ardal honno mae'r Cynllun yn cydnabod defnydd amlwg o'r Gymraeg. Gyda chenhedlaeth newydd o ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn cael eu meithrin, mae'n nodi bod hyn yn gyfle da i'r ardal gyfalafu ar yr elfen hon yn ei threftadaeth ddiwylliannol.

Polisi Cynllunio Cymru 2018

- 4.1.4 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) 2018 (PCC) yw polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, a dylid ei ystyried wrth greu cynlluniau datblygu.

Mae'r ddogfen ynghyd â'r canllawiau ategol yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 ar y Gymraeg (2000), yn datgan y bydd lles yr iaith yn y dyfodol yn ddibynnol ar ystod eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol ac ar gael sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy sy'n ffynnu. Dylai'r system cynllunio defnydd tir hefyd ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg, ac wrth wneud hynny, cyfrannu at les yr iaith.

- 4.1.5 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW)⁵a ddiweddarwyd yn 2018, yn anelu i wireddu'r weledigaeth o Gymru a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cymru fwy ffyniannus; Cymru gydnerth, sy'n cynnal ecosystemau iach a gweithredol, ac sy'n cydnabod terfynau amgylchedd y byd; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru sy'n cynnwys cymunedau mwy cydlynus; a Chymru sy'n cynnwys diwylliant hyfyw lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang.
- 4.1.6 Mae PCC yn ymgorffori ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy ein symud tuag at gymdeithas carbon isel a chydnerth, drwy ddarparu swyddi diogel sy'n denu cyflog da, a thrwy adeiladu amgylcheddau sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd i bawb yng Nghymru.
- 4.1.7 Mae PCC yn cefnogi'r Gymraeg, gan gynnwys mynediad at wasanaethau, ac yn annog naws am le ac ymdeimlad o berthyn. Y mae hefyd yn anfon neges glir ein bod yn cynllunio ar gyfer cymunedau cydnerth y dyfodol (mewn ardaloedd gwledig a threfol).
- 4.1.8 Mae PCC yn datgan y dylai pob penderfyniad ynghylch datblygu, boed hynny yn newisiadau polisi cynlluniau datblygu neu drwy benderfyniadau rheoli ar gyfer datblygiadau unigol, geisio cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy ac at wella lles. Un o'r Canlyniadau Creu Lleoedd yw - Creu Cymunedau Cynaliadwy: Yn galluogi'r Gymraeg i ffynnu.

Nodyn Cyngor Technegol 20 - y Gymraeg

- 4.1.9 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 yn rhoi canllawiau atodol i Ran 4 o Bolisi Cynllunio Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried TANs a Chylchlythyrau wrth greu cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.
- 4.1.10 Yn TAN 20, a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2017, nodir bod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol o safbwynt cynllunio. Gall achlysuron godi lle bydd y naill fudd sy'n

⁵ Polisi Cynllunio Cymru, 2018 <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/planning-policy-wales-edition-10.pdf>

gysylltiedig â chynnig datblygu neu benderfyniad i neilltuo safle yn gwrthbwysu budd arall. Mewn achosion o'r fath, dylid cyflwyno tystiolaeth gadarn i gefnogi'r penderfyniadau hyn, gan geisio sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posib i sicrhau'r holl nodau llesiant.

4.1.11 Nodir yn y canllaw fod yn rhaid asesu'r effaith ar y Gymraeg yn rhan o Arfarniad Cynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir.

4.1.12 Nid yw'n ofynnol cynnal asesiadau effaith fel y cyfryw ar gyfer pob safle yn rhan o'r drefn arferol. Mae'n ofynnol cynnal asesiadau effaith ar gyfer y canlynol:

- Penderfyniadau polisi o bwys (fel y nodir yn Safonau'r Gymraeg);
- Datblygiadau graddfa fawr - a ddiffinnir fel arfer fel 10 neu fwy o anheddau preswyl neu ddatblygiadau dros 1,000 metr sgwâr neu 1 hectar, ond caiff ACLlau bennu trothwyon sy'n briodol i'r ardal leol yn y CDLI, ar sail tystiolaeth (TAN 20, Hyd 2017);
- Ardaloedd ieithyddol sensitif (y mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol eu pennu); ac
- Ardaloedd diffiniedig

4.1.13 Mae'n ofynnol felly i'r awdurdod ddilyn ymagwedd sy'n seiliedig ar gynllun a chynnal asesiad lefel uchel o effaith y Strategaeth a Ffefrir ar y Gymraeg, yn rhan o'r Arfarniad Strategol yn unol â TAN 20.

4.1.14 Mae'r Strategaeth a Ffefrir sy'n destun ymgynghoriad o fis Gorffennaf 2019 yn cynnwys safleoedd neilltuedig a gynigiwyd i'w datblygu. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r asesiad effaith a gwblhawyd ar y safleoedd hyn.

4.1.15 Fodd bynnag, ni ellir rhagweld yr holl safleoedd sydd i'w datblygu eto, ac yn ôl TAN 20 gall awdurdodau lleol ystyried beth yw maint cyfraniad y safleoedd hynny, ac a allai lefel yr hap-ddatblygiadau a ragwelir effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg. Gall asesiad effaith lefel uchel felly roi ystyriaeth fras i'r rhain ar hyn o bryd.

4.2 Ardaloedd diffiniedig

4.2.1 Mae TAN 20 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio bennu ardaloedd ieithyddol sensitif. Yr ardaloedd diffiniedig hyn yw'r ardaloedd a ystyrir yn arbennig o sensitif ac/neu bwysig o ran y Gymraeg. Mae'n rhaid i'r ardaloedd hynny fod wedi'u diffinio'n glir ar Fap Cynigion y CDLI, ac mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth i gefnogi eu ffiniau a'r sail resymegol ar eu cyfer.

4.2.2 Bydd diffinio ardaloedd felly yn galluogi'r awdurdod cynllunio lleol i gyfleu'n glir wrth gymunedau a datblygwyr lle mae angen rhoi ystyriaeth i'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd hefyd yn arwydd o'r ardaloedd lle gellid bod angen mesurau i liniaru effeithiau datblygu ar y Gymraeg.

4.2.3 Mae rhai wardiau ac ardaloedd cyngor cymuned ym Mwrdeistref Sirol Conwy nad ydynt wedi'u cynnwys yn CDLI y Cyngor. Y rheswm am hyn yw bod y cymunedau hynny ym Mharc Cenedlaethol Eryri, ac felly y tu hwnt i gwmpas y Cynllun. Er bod pob ward a bwrdeistref sirol yn berthnasol i ddibenion cymharu data, ac yn arddangos gwedd cyfoethog y Gymraeg yn y sir, mae cymunedau yn y Parc Cenedlaethol y tu hwnt i gwmpas yr asesiad hwn o'r effaith ar y Gymraeg. Mae'r Cynghorau Cymuned hynny sy'n cynnwys nifer fawr ac/neu ganrannau uchel o siaradwyr Cymraeg, ac sydd wedi'u lleoli yn gyfan gwbl oddi mewn i ardal Parc Cenedlaethol Eryri yn hytrach nag yn Ardal y Cynllun, yn cynnwys Betws y Coed, Capel Curig, Dolwyddelan, Bro Machno ac Ysbyty Ifan.

4.3 Mesurau lliniaru mewn canllawiau cenedlaethol

4.3.1 Dylid nodi mesurau i liniaru rhan effeithiau andwyol a chmau i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol wrth greu'r cynllun datblygu. Drwy wneud hyn yn y cyfnod creu, bydd y datblygwr yn gwybod beth yw goblygiadau'r mesurau hynny wrth fynd ati i greu cais cynllunio. Dylai hyn hefyd fod o gymorth i gynnwys y gymuned - oherwydd bydd cynigion cadarnach ac mwy adeiladol wrth greu'r cynllun yn fodd i leihau gwrthdaro posibl wrth gyflwyno ceisiadau cynllunio.

4.3.2 Er mwyn sicrhau bod mesurau lliniaru yn cael eu gweithredu, efallai y bydd angen defnyddio cytundebau Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) neu adran 106. Gellir cynnwys darparu seilwaith i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ar restr codi tâl CIL yn unol â'r holl gyfraith sy'n berthnasol, gan gynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio 2008 a Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010.

4.4 Arwyddion

4.4.1 Yn ôl TAN 20, "Gall arwyddion gael effaith weledol drom ar gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Maent hefyd yn un ffordd o hybu diwylliant unigryw Cymru, sy'n arwyddocaol o safbwynt hunaniaeth gwahanol gymunedau a'r diwydiant twristiaeth. Gall polisïau CDLlau ar arwyddion a hysbysebion sy'n destun rheolau cynllunio hybu darparu arwyddion dwyieithog."

4.5 Cynllunio a'r Gymraeg: y Ffordd Ymlaen

- 4.5.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn ar y cyd rhwng awdurdodau cynllunio lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg (a elwir bellach yn Gomisiwn y Gymraeg), y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai a Llywodraeth Cymru.
- 4.5.2 Un o argymhellion yr adroddiad hwn oedd y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddechrau diffinio Ardaloedd Ieithyddol Sensitif (AISOedd) yn eu hardaloedd. Roedd yr ardaloedd hyn wedi'u seilio ar drothwy bod 25% neu fwy o ardal y Cyngor Cymuned yn siarad Cymraeg;

5. Y Strategaeth a Ffeirir yng Nghonwy, 2019-33

5.1 Cyflwyniad

- 5.1.1 Mabwysiadodd Conwy ei Chynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn 2013, a bydd y cynllun hwnnw'n dod i ben yn 2021. Bellach, mae Conwy felly'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) ar gyfer y cyfnod 2018-2033. Yn ôl yr awdurdod, 'gyda'n gilydd, rydym am gyfrannu mewn modd cadarnhaol at ddatblygu cynaliadwy drwy wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Conwy erbyn 2033 ac, yn y pen draw, 'Creu Gwell Cyfleoedd i Drigolion, Gweithwyr ac Ymwelwyr' yn y fwrdeistref sirol.
- 5.1.2 Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy greu Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n fanwl, yn gryno a pherthnasol, sy'n coleddu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r cysyniad o greu lleoedd. Drwy wneud hynny, sicrhewr bod y CDLIN yn ymgorffori ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn ceisio cymryd camau cadarnhaol tuag at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a llesiant gwell i bawb yng Nghonwy.
- 5.1.3. Yn seiliedig ar yr Egwyddorion Cynllunio Allweddol a'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol yng Nghymru, bydd y cysyniad o greu lleoedd yn elfen allweddol yn y Strategaeth a Ffeirir yng Nghonwy er mwyn cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a llywio penderfyniadau Conwy wrth greu cynlluniau a rheoli datblygiad, er mwyn creu lleoedd cynaliadwy. Wrth greu lleoedd yng Nghonwy, sicrhewr ymagwedd gyfannol at gynllunio. Bydd yn manteisio ar botensial Conwy i greu datblygiadau o ansawdd uchel a mannau cyhoeddus sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl.

5.1.4 Y Strategaeth a Ffefrir yw'r cam statudol cyntaf wrth baratoi'r CDLIN. Mae'n nodi'r ymagwedd fras y mae'r CDLIN yn bwriadu ei mabwysiadu er mwyn sicrhau bod datblygiadau yng Nghonwy yn gynaliadwy.

5.1.5 Nodir Gweledigaeth yr awdurdod yn glir yn y Strategaeth a Ffefrir, fel a ganlyn:

Erbyn 2033, bydd Conwy yn cynnig mwy o gyfleoedd i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr. Bydd ansawdd bywyd da yn cael ei gynnig i bawb, gan gefnogi amrywiaeth pobl a lleoedd Conwy. Bydd pwysigrwydd y Gymraeg mewn sawl cymuned yn cael ei gydnabod a'i hyrwyddo. Bydd pobl hŷn Conwy yn cael eu hannog i fyw bywyd egnïol, iachus a chyflawn wrth iddynt fynd yn hŷn. Bydd cyfleoedd addysgol a chymdeithasol gwell, a gwell cyfleoedd o ran cyflogaeth, ar gael er mwyn annog pobl ifanc i aros a dychwelyd i Gonwy a chefnogi twf. Bydd ystod fwy o gartrefi wedi'u dylunio'n dda yn cael eu darparu ar draws Conwy, yn seiliedig ar angen lleol am dai fforddiadwy a thai ar y farchnad agored. Bydd adnewyddu'r ffocws ar fentrau sy'n creu lleoedd ac yn adfywio yn fodd i sicrhau bod datblygiadau o ansawdd uchel sydd wedi'u dylunio'n dda yn cefnogi creu lleoedd iachach a mwy hyfyw, ac yn adlewyrchu lleoliad Conwy yn ardal Bargen Twf y Gogledd. Bydd canolfannau cyflogaeth Conwy, wedi'u hadeiladu o amgylch cysylltiadau trafnidiaeth strategol ledled y sir yn gryfach yn economaidd. Bydd gan Gonwy rwydwaith ffyniannus o drefi a phentrefi, ac economi wledig hyfyw sy'n diogelu ac yn gwarchod yr amgylchedd naturiol. Anogir mewnfuddsoddi, seilwaith a darpariaeth teithio egnïol pellach i gefnogi datblygiadau cynaliadwy lle bo hynny'n gyson â'r angen i liniaru rhag achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y cyfoeth o treftadaeth naturiol a diwylliannol yng Nghonwy wedi'i gwarchod a'i hyrwyddo; gan gydnabod pwysigrwydd y dreftadaeth honno er mwyn sicrhau llesiant pobl a bywyd gwyllt, a'i phwysigrwydd i'r economi ymwelwyr.

5.1.6 Mae'r weledigaeth yn cynnwys ymrwymiad cadarn a chlir tuag at y Gymraeg. Mae'r datganiadau uchod yn cynnwys gweledigaeth i gydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yng Nghonwy ac ymrwymiad cryf hefyd i gryfhau'r iaith drwy'r broses gynllunio.

5.1.7 Ceir pedair adran yn sail i'r Strategaeth a Ffefrir, a'u nod yw cyfrannu'n unigol at greu lleoedd ac at ddatblygu cynaliadwy yng Nghonwy: Nodir pedwar maes strategol yn y Strategaeth a Ffefrir, sef:

- **Creu Lleoedd Cynaliadwy** - Mae'r adran hon yn hyrwyddo polisiau integredig na ddylid eu hystyried yn ynysig yn ystod y broses ddatblygu. Mae hyn yn

cynnwys ystyried dyluniad datblygiad a'i effeithiau ar fywydau bob dydd, yn ogystal ag ystyriaeth gyfannol o'r mannau lle gallai pobl fyw a gweithio ynddynt, a pha ardaloedd y dylid eu gwarchod.

- **Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy** - Mae'r Strategaeth a Ffeirir yn hyrwyddo economi sy'n ffynnu yng Nghonwy drwy ddarparu datblygiadau cyflogaeth ac economaidd a chanddynt gysylltiadau da mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch. Mae'r adran hon yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer Datblygiad Economaidd, Twristiaeth, Yr Economi Wledig, Seilwaith Trafnidiaeth, Telathrebu, Ynni a Mwynau a Gwastraff.
- **Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy** - Mae'r adran hon yn disgrifio'r modd y bydd yr awdurdod yn helpu pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, yn sicrhau datblygiadau sy'n cynnwys pob rhan o gymdeithas a chymunedau mwy cydlynus. Mae'r adran hon yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer Trafnidiaeth, Tai, Canolfannau Adwerthu a Masnachol, Cyfleusterau Cymunedol a Mannau Hamdden.
- **Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy** - Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy yw'r lleoedd hynny sy'n dangos gwerthfawrogiad o dirweddau ac amgylchedd hanesyddol Conwy, asedau economaidd a fydd yn gadarn yn y dyfodol mewn ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd ac wrth hyrwyddo datrysiadau carbon isel, gwarchod tirweddau a chynefinoedd, galluogi cyfleoedd i gysylltu â'r amgylchedd naturiol ac annog ffyrdd iachach o fyw gan arwain at well llesiant corfforol a meddyliol.

5.1.8 Mae'r Strategaeth a Ffeirir yn sefydlu'r achos dros dwf yn y fwrdeistref sirol yn y cyfnod 2018-2033. Dywed y Cyngor, oherwydd twf yn y boblogaeth ac amcangyfrifon ar gyfer mwy o aelwydydd, mae angen datblygiad newydd i gefnogi'r twf hwnnw. Mae'r Strategaeth a Ffeirir yng Nghonwy yn cynnig y dylid darparu ar gyfer hyd at 1,800 o swyddi newydd a 5,150 o gartrefi erbyn 2033.

5,150 o gartrefi (350 o gartrefi bob blwyddyn rhwng 2018 a 2033)

1,800 o swyddi

1,800 o gartrefi fforddiadwy (120 bob blwyddyn rhwng 2018 a 2033)

5.2 Y safleoedd a neilltuwyd yn y Strategaeth a Ffefrir

5.2.1 Ar ôl nodi a deall anghenion ardaloedd trefol a gwledig presennol a'u priodoleddau allweddol, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnig canolbwyntio ar ddwy ardal strategol o ran twf: Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir ac Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig

5.2.2 Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir:

Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth Conwy ar hyd llain drefol yr arfordir, ar hyd llwybrau trafnidiaeth strategol ffordd ddeuol yr A55 a'r rheilffordd. Y lleoliadau trefol hyn sy'n cynnig y cyfle gorau i leoli twf, bodloni anghenion cymunedau, hyrwyddo dulliau teithio egnïol, cymunedau iachach, trechu newid hinsawdd a chydymffurfio yn y pen draw â'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol a'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghymru. Fodd bynnag, ceir problemau yn gysylltiedig â chapasiti cymunedau a seilwaith yn yr ardaloedd hyn hefyd (ee, ysgolion, meddygfeydd a chyflenwi cyfleustodau). Cynllunnir ar gyfer y rhain yn y Strategaeth a Ffefrir er mwyn sicrhau bod cymunedau cynaliadwy yn cael eu creu.

5.2.3 Ceir cyfyngiadau mawr hefyd ar rai ardaloedd trefol, fel Abergele, Pensarn, Tywyn a Bae Cinmel, ee y risg o lifogydd a seilwaith priffyrdd, sydd yn effeithio ar eu gallu Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn hyrwyddo Ardal Adfywio a Buddsoddi Ddwyreiniol yn rhan o'r Strategaeth a Ffefrir er mwyn osgoi unrhyw ddirywiad pellach yn yr ardaloedd bregus hyn, a sicrhau bod y cynllun yn cyfrannu at greu cymunedau cydnerth. Mae'r rhan fwyaf o'r twf wedi'i leoli yn y trefi mwy hygyrch a chynaliadwy yn ardal Ganolog, ardal y Creuddyn ac ardal Orllewinol Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir.

5.2.4 Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig:

Mae cefn gwlad Conwy yn adnodd deinamig ac amlbwrpas, fel yr amlinellir yn y Strategaeth a Ffefrir. Mae'n rhaid gwarchod yr adnodd hwnnw a, lle bo modd, cynyddu ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffig, hanesyddol, archaeolegol, diwylliannol ac amaethyddol, ac er mwyn gwella ei adnoddau tirweddol a naturiol. Bydd yr angen i warchod y priodoleddau hyn wedi'i gydbwyso yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau ac ymwelwyr lleol.

5.2.5 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn lleoli twf cyfyngedig yn bennaf yn yr aneddiadau gwledig hynny sydd yn gymharol hygyrch drwy ddulliau teithio ar wahân i geir, o gymharu â'r ardal wledig yn ei chyfanrwydd. O'r herwydd, mae mwyafrif y twf gwledig wedi'i leoli yng

Nghanolfan Wasanaeth Allweddol Llanrwst, sydd yn anheddiad sy'n cynnal y cymunedau gwledig ehangach o ran cyflogaeth, adwerthu ac addysg. Er mwyn sicrhau bod cymunedau gwledig yr ardal ehangach yn cael cyfle i'w cynnal eu hunain, mae angen hyrwyddo ymagwedd fwy hyblyg at ddatblygiad, sy'n gwarchod hunaniaeth cymunedau ac yn bodloni anghenion lleol.

5.2.6 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi'r safleoedd sy'n allweddol er mwyn cyflawni'r strategaeth gyffredinol. Ystyr Safle Strategol yw safle sy'n cynnwys 6 hectar (60,000 metr sgwâr) neu fwy, a allai gynnwys defnydd penodol neu gymysgedd o ran defnydd. Nodwyd bod Pum Safle Strategol yn gwneud cyfraniad pwysig at y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer twf dros gyfnod y Cynllun.

Polisi Strategol 11 (SP/11): Safleoedd Strategol

I rannol fodloni'r gofynion twf i'r dyfodol, adlewyrchu tir cyfyngedig iawn yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol a chyfrannu'n gadarnhaol at Fargen Twf y Gogledd, cynigir pump o Safleoedd Strategol Allweddol* mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, wedi'u hategu gan y seilwaith gofynnol a'u cynnig yn raddol dros Gyfnod y Cynllun.

Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (CDSA):

1. Llanfairfechan – Tai Defnydd Cymysg (400 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Ysgol Gynradd, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2021 a 2029.
2. Llanrhos – Tai Defnydd Cymysg (250 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Ysgol Gynradd, 1 Hectar o Dir Cyflogaeth B1, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2024 a 2031.
3. Hen Golwyn – Tai Defnydd Cymysg (450 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2024 a 2033.
4. Abergele – Cyflogaeth Defnydd Cymysg (4.7 Hectar o B1, B2 a B8), Siopau Adwerthu Cyfleustra, Ardal Hamdden ac Ysgol Gynradd. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2021 a 2027.

Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (RDSA)

5. Canolfan Wasanaethau Allweddol Llanrwst – Tai (200 o Gartrefi), Tai Fforddiadwy, Rhandiroedd ac Ardal Hamdden. Cyflwynir y safle yn raddol rhwng 2021 a 2026.

*Mae'r holl Safleoedd Strategol Allweddol yn cael eu hategu gan Asesiad Hyfywedd, Asesiadau Safle a Darluniadau o'r Cysyniad. Bydd yr holl Safleoedd Strategol yn cael eu hategu gan Weledigaeth Creu Lleodd, Egwyddorion Dylunio a Briffiau Datblygu.

5.3 Polisi cynllunio o ran y Gymraeg ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir

- 5.3.1 Mae Polisi Strategol 7 yn Amcan 1 y Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys y Gymraeg: felly, mae'r Gymraeg yn flaenoriaeth glir yn y cynllun.
- 5.3.2 Nodir yn y polisi fod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.
- 5.3.3 Yn unol â'r polisi hwn, cynhaliwyd asesiad effaith lefel uchel ar y Strategaeth a Ffefrir. Ceir canlyniad yr asesiad hwnnw yn yr adrannau a ganlyn.

4.7.6 Yr Iaith Gymraeg

Polisi CTH/5 – YR IAITH GYMRAEG

1. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod datblygiadau yn cefnogi a chynnal lles tymor hir yr iaith Gymraeg, ac yn gwrthod datblygiadau a fydd, oherwydd ei faint, graddfa neu leoliad yn niweidio'n sylweddol gymeriad a chydbywysedd ieithyddol cymuned. Mae strategaeth y CDLI wedi cael ei asesu o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg ac amlygwyd y gofynion canlynol:
 - a. Bydd safleoedd tai a ddyrannwyd yn Abergele a Llanrwst a'r safle defnydd cymysg a ddyrannwyd yn Nolgarrog angen 'Datganiadau Lliniaru' yn unol â chanlyniadau'r Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg;
 - b. Dylai 'Datganiad Ieithyddol a Chymunedol' ddod gyda:
 - Ceisiadau am dai ar safleoedd heb eu dyrannu o ddeg uned neu fwy yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Trefol a phum uned neu fwy yn yr ardal Strategaeth Datblygu Gwledig;
 - Datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristiaeth ar safleoedd heb eu dyrannu gydag arwynebedd o 1,000 metr sgwâr neu fwy yn ardal y Cynllun; a
 - Datblygiad sy'n debygol o arwain at golli cyfleusterau cymunedol fel a ddiffinnir ym [Mholisi CFS/6](#);
 - c. Unwaith y darperir safleoedd tai annisgwyl ar gyfer ardal strategaeth ofodol yn unol â'r ffigurau yn nhabl 3 HOU1a, bydd hyn yn sbarduno adolygiad a fyddai'n cyflwyno asesiad o'r holl geisiadau am dai heb eu dyrannu yn erbyn yr iaith Gymraeg;
 - d. Dylid cyflwyno asesiad mwy manwl ar ffurf 'Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol' gyda:
 - Cheisiadau tai ar safleoedd ar hap o 20 uned neu fwy yn yr Ardal Strategaeth Datblygiad Trefol a deg uned neu fwy yn yr Ardal Strategaeth Datblygiad Gwledig;
 - Datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristiaid ar safleoedd heb eu dyrannu gydag arwynebedd o 2000 metr sgwâr neu fwy yn ardal y Cynllun;
2. Ledled ardal y Cynllun, bydd y Cyngor yn annog darparu arwyddion dwyieithog a dal gafael ar enwau Cymraeg traddodiadol ar gyfer datblygiadau a strydoedd newydd.

[view map](#)

5.4 Cynllun Cynnwys Cymunedau

- 5.4.1 Yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol, mae'n rhaid ymgysylltu'n fuan, yn effeithiol ac yn ystyriol â'r gymuned i lywio a thanategu'r CDLIN. Mae'n rhaid gwneud hynny er mwyn deall ac ystyried ystod eang o safbwyntiau, gan anelu i greu consensws eang ar y strategaeth ofodol, ac ar bolisiau a chynigion.
- 5.4.2 Cyhoeddodd y Cyngor ddwy ddogfen ymgynghori - y naill ym mis Tachwedd 2018 a'r llall ym mis Ionawr 2019 - i lywio ei waith cynllunio.
- 5.4.3 Mae ymgynghori drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag ymgynghori ar yr effaith ar y Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan bwysig o'r broses ymgynghori.

5.4.4 Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn rhan o Gytundeb Cyflawni CDLI y Cyngor ac yn nodi dulliau i'w defnyddio yn ystod y broses CDLI er mwyn ymgynghori ac ymgysylltu. Ym Mharagraff 3.9 nodir y bydd y Gymraeg a Saesneg yn cael eu defnyddio mewn ymarferion ymgynghori â'r cyhoedd, yn unol â Chynllun Cymraeg y Cyngor. Bydd cyfranogwyr yn gallu ymateb yn y naill iaith neu'r llall. Ymhellach i'r pwynt hwn, bydd system ymgynghori ar-lein y Cyngor yn rhoi ymatebion cydnabod yn Gymraeg i sylwadau a wneir yn Gymraeg.

5.4.5 Ar ben hynny, yn unol â chanllawiau diweddar TAN 20 a Safonau'r Gymraeg ynghylch ymgysylltu ac ymgynghori, bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ynghylch yr effaith ar y Gymraeg. Yn ogystal â hynny, bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn gofyn am adborth gan siaradwyr Cymraeg a grwpiau cynrychioliadol, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, Menter Iaith Conwy, ysgolion a cholegau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, papurau bro, Merched y Wawr / Gwawr a'r Ffermwyr Ifanc.

5.5 Ardaloedd ieithyddol Sensitif

5.5.1 Yn unol â TAN 20, mae'n ofynnol i awdurdod cynllunio Conwy ddiffinio ei ardaloedd ieithyddol sensitif. Yn unol â Cynllunio a'r Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005), argymhellir mai'r trothwy yw bod 25% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

5.5.2 Yn seiliedig ar y ddau ddadansoddiad ystadegol a gynhaliwyd, mae Tabl 8 yn rhestru'r ardaloedd ieithyddol sensitif a nodwyd yn unol â gofynion TAN 20 ac yn unol ag arfer da, hy, bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal lle bo 25% neu fwy yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 8: Safleoedd ieithyddol sensitif Conwy

Cyngor Cymuned	Y ganran a oedd yn siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011
Cerrigydrudion	77.20%
Pentrefoelas	69.90%
Llanfihangel Glyn Myfyr	69.60%
Llangernyw	64.40%
Llansannan	64.00%
Llanddoged a Maenan	62.40%
Llangwm	61.50%

Llanrwst	61.00%
Llanefydd	60.90%
Bro Garmon	58.60%
Eglwysbach	49.00%
Dolgarrog	46.80%
Llanfairfechan	46.70%
Betws Yn Rhos	46.40%
Trefriw	44.90%
Caerhun	44.60%
Llanfairtalhaiarn	44.50%
Henryd	37.10%
Llansanffraid Glan Conwy	35.80%
Penmaenmawr	33.80%
Conwy	27.30%

- 5.5.3 Yn ogystal â hyn, mae'r canlynol yn ardaloedd strategol bwysig: lle bo 19% neu fwy yn siarad Cymraeg. Er nad yw'r ganran yn uwch na 25%, mae'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%.

Tabl 9: Safleoedd ychwanegol yng Nghonwy sydd yn strategol bwysig o ran y Gymraeg

Abergele
Llanddulas a Rhyd-y-Foel
Llandudno
Llysfaen
Mochdre
Hen Golwyn

- 5.5.4 Wrth ddefnyddio'r data uchod, mae'n bwysig iawn cofio bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i'w cael ym mhobman - yn yr holl gynghorau cymuned a'r holl wardiau etholiadol ar draws Conwy. Nid yw nodi'r ardaloedd hyn yn atal neu'n cau allan ystyriaeth o ardaloedd eraill mewn gweithgareddau cynllunio.
- 5.5.5 Ar ben hynny, mae'n bwysig iawn cofio mai canrannau a ddefnyddir i ddibenion yr ymarfer hwn, ond bod niferoedd yr un mor bwysig. Gall nifer y siaradwyr Cymraeg fod

yn uwch nag ardaloedd lle mae'r canrannau'n is. Mae hyn oherwydd dwysedd y boblogaeth mewn ardal.

- 5.5.6 I ddibenion yr asesiad effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir ym mis Gorffennaf 2019, defnyddiwyd yr ardaloedd ieithyddol sensitif a ganlyn:

6. Asesiad o effaith y Strategaeth a Ffefrir ar y Gymraeg

6.1 Cyflwyniad

- 6.1.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r asesiad effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd ar gyfer Strategaeth a Ffefrir Cyngor Bwrdeistref Conwy. Yn dair rhan, mae'r adran gyntaf yn cyflwyno'r asesiad effaith lefel uchel a gwblhawyd ar y safleoedd a neilltuwyd yn y Strategaeth a Ffefrir ar sail yr ardaloedd ieithyddol sensitif. Mae'r adran nesaf yn rhoi crynodeb o'r asesiad effaith lefel uchel a gynhaliwyd ar y Strategaeth a Ffefrir yn ei chyfanrwydd, gan ddefnyddio'r rhestr wirio 18 pwynt (ar gael yn Atodiad 1). Mae'r drydedd ran yn rhoi dadansoddiad o'r amcanion a'r blaenoriaethau strategol yn y Strategaeth a Ffefrir (ar gael yn llawn yn Atodiad 2).

6.2 Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar safleoedd a neilltuwyd

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Y Gorllewin

Cynigir Safle Strategol defnydd cymysg newydd yn Llanfairfechan, yn cynnwys 400 o gartrefi newydd, tai fforddiadwy, ysgol gynradd newydd, rhandiroedd a thir hamdden. Yn seiliedig ar yr ymagwedd blaenlwytho, penderfynwyd bod capasiti yn y cyflenwad dŵr a'r seilwaith carthffosiaeth / draenio ac o ran y Feddygfa. Fodd bynnag, mae angen gwella llwybrau teithio egniïol a'r opsiynau ar gyfer llwybrau saffach i'r ysgol o'r ardaloedd preswyl ehangach yn Llanfairfechan. Mae Ysgol Gynradd newydd Band B hefyd wedi'i chynllunio rhwng 2020 a 2024. Ystyriwyd ac adlewyrchwyd effaith lefel y twf wrth benderfynu ar faint yr ysgol.

Oherwydd yr ardaloedd ieithyddol sensitif yn yr ardal hon o'r Cynllun, yn ogystal â maint y datblygiad, mae angen cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn unol â TAN 20 a Safonau'r

Gymraeg, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol cynnal asesiad o effeithiau cadarnhaol ac andwyol ar gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chyfleoedd am hynny.

Bydd cynnal yr asesiad effaith yn gyfle i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, a hefyd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol yn sgil y datblygiad yn Llanfairfechan a'r cyffiniau.

Dylai'r asesiad ystyried sut mae'r rhandiroedd sy'n cael eu datblygu ac unrhyw gynlluniau cymdeithasol a hamdden eraill yn ardal y Cynllun yn cael eu datblygu mewn modd sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi defnydd cynyddol o'r Gymraeg bob dydd. Wrth gynllunio datblygiad yr ysgol, bydd angen i'r asesiad effaith ystyried yr effaith ar y Gymraeg a chyfleoedd i hyrwyddo a chefnogi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a strategaeth y Gymraeg i sicrhau cynnydd o 2% mewn siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy.

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Y Creuddyn

Cynigir Safle Strategol defnydd cymysg yn Llanrhos rhwng aneddiadau trefol Cyffordd Llandudno a Llandudno, yn cynnwys 250 o gartrefi newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy), tua 1 hectar o B1 (swyddfa) i hyrwyddo defnydd cyflogaeth clwstwr, ysgol gynradd newydd, rhandiroedd a thir hamdden. Mae'r ardal hefyd wedi'i chydabod fel ardal lle mae angen gwella trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleoedd teithio egniïol a'r seilwaith gwyrdd, a bydd hyn yn cael ei ddatblygu drwy Friff Datblygu cynhwysfawr. Mae'r Safle Strategol wedi'i drefnu fesul cam o 2024 ymlaen i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Rhaglen Moderneiddio Ysgolion 'Band C'.

Oherwydd maint y cynnig (dros 10 o unedau a 10,000 metr sgwâr), bydd angen cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg ar y safle hwn sydd wedi'i neilltuo yn y Strategaeth a Ffeirir, yn unol â chanllawiau TAN 20.

Mae Llandudno a Chonwy ymhlith y prif aneddiadau trefol yn yr ardal hon o fewn y Cynllun. Mae Conwy yn cynnwys poblogaeth o 27.3% o siaradwyr Cymraeg (3,901) a Llandudno yn cynnwys 20.3% (4,079). Maent yn ardaloedd ieithyddol sensitif oherwydd y canrannau (fel y'u diffinnir ym mholisi cynllunio'r Gymraeg yng Nghonwy, ac ar sail y trothwy yn Cynllunio a'r Gymraeg: y ffordd ymlaen, 2005). Ar ben hynny, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn sylweddol yn gyffredinol yng Nghonwy ac yn genedlaethol.

Mae'r safle defnydd cymysg sy'n cael ei gynnig wedi'i leoli yn Llanrhos, ond wedi'i leoli'n strategol wrth ymyl Conwy sydd yn ardal ieithyddol sensitif lle mae 27.3% o'r boblogaeth yn siarad

Cymraeg a Llandudno, sydd yn ardal strategol bwysig lle mae 20.3% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Ceir cymunedau eraill hefyd gerllaw, ee Mochdre, Deganwy lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol: felly mae'r ardal gyfan yn strategol bwysig.

Fel yr argymhellir yn Cynllunio a'r Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005) mae angen cynnal asesiad effaith ar gyfer y rhain.

Mae angen i'r asesiad ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr ardal ehangach o amgylch y safleoedd a glustnodwyd i'w datblygu. Gall datblygiadau cyflogaeth a thai gael effaith ar yr ardal leol a hefyd ac yn ehangach na'r gytref lle mae'r cyflenwad adeiladu wedi'i ddyrannu. Mae angen i'r asesiad hwn ystyried yr effaith bosibl ar fewnfudo i/allfudo o ardaloedd Cymraeg eu hiaith, ac os oes effaith ar hynny, rhoi mesurau lliniaru ar waith. Mae hyfforddiant a chefnogaeth i bobl leol gyrchu a chael swyddi newydd sy'n cael eu datblygu'n lleol ymhlith rhai camau lliniarol a allai gael eu hystyried. Gellid defnyddio cytundebau Adran 106 hefyd i ariannu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y gymuned i gryfhau lleoedd cynaliadwy a chydnerth.

Bydd yr asesiad hefyd yn nodi'r potensial i'r ardal hon hyrwyddo a chefnogi defnydd cynyddol o'r Gymraeg yn y dyfodol, drwy roi cynlluniau ar waith i gefnogi gweithgareddau hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg yn y datblygiadau newydd, a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg o'r cyffiniau i gyrchu a manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Bydd yr asesiad hefyd yn cynnwys ystyriaeth o'r ddarpariaeth a gynllunnir o ran ysgolion, a'r modd y bydd hyn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc ac yn cyfrannu at strategaeth Conwy ar gyfer y Gymraeg i sicrhau cynnydd o 2% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol dros y cyfnod nesaf o 5 mlynedd.

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Canolog

Safle Strategol i'r de o Hen Golwyn yn cynnwys 450 o gartrefi newydd, rhandiroedd a thir hamdden. Bydd y Safle Strategol yn cael ei gyflwyno fesul cam o 2024 i ystyried effeithiau'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Band C. Yn dilyn yr ymagwedd blaenlwytho, efallai y bydd angen i'r safle gynnwys gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd ehangach, gwasanaeth gwell o ran

trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiadau teithio egniïol. Mae Modelu Hydrolig hefyd ar y gweill i ganfod a fydd angen gwneud gwaith i wella capasiti'r cyflenwad dŵr a'r seilwaith carthffosiaeth/draenio.

Mae'r ardal hon yn cynnwys sawl ardal sydd o bwysigrwydd strategol i'r Gymraeg. Er enghraifft, Mochdre (22.5%), Hen Golwyn (21.9%) a Llysfaen (21.1%) lle mae canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn Hen Golwyn, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn sylweddol ar raddfa'r Sir, gyda 1,719 yn gallu siarad Cymraeg yn ardal y cyngor cymuned. Mae Llandrillo yn Rhos hefyd yn yr ardal hon, lle mae 18.4% (1,366) o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Oherwydd cyfuniad y safleoedd hyn yn yr ardal dan sylw, a maint y safle yn y CDLI, mae'n ofynnol cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg yn unol â TAN 20 a pholisi cynllunio'r Gymraeg yng Nghonwy.

Bydd yr asesiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o effeithiau cadarnhaol a negyddol twf mewn tai (35% o'r cyfanswm yn y cynllun) ar y Gymraeg a'u cymunedau, gan gynnwys Hen Golwyn, Llysfaen a Bryn y Maen ymhlith eraill, ond hefyd yr ardaloedd oddi amgylch a'r effeithiau cronus yn gyffredinol. Bydd yr asesiad hwn yn ystyried sut i liniaru'r effeithiau negyddol a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy cyffredinol.

Bydd yr asesiad effaith ar y Gymraeg yn ystyried y cyfleoedd am gyflogaeth a gynigir yn y cynllun er mwyn sicrhau bod y rheiny'n cyfleoedd y gall pobl leol fanteisio arnynt, a hefyd yn sicrhau bod y cynigion hyn o gymorth i gefnogi cymunedau cynaliadwy a chydnerth Cymraeg eu hiaith yn yr ardal.

Bydd angen iddo hefyd gynnwys ystyriaeth o'r effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn yr ardal, gan gysylltu â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer y fwrdeistref sirol. Ymhlith yr ystyriaethau fydd cyfrwng ieithyddol ysgolion cynradd ac uwchradd, yr effaith ar gategori iaith yr ysgolion, ac effaith datblygu ar leoedd mewn ysgolion a niferoedd cyffredinol, yn ogystal â sgil-ffeithiau lleoliadau ysgolion a phenderfyniadau ynghylch cohortau ar gymunedau.

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Y Dwyrain

Cyflogaeth Defnydd Cymysg (4.7 Hectar o B1, B2 a B8), Tir Hamdden ac Ysgol Gynradd. Cyflwynir y safle fesul cam rhwng 2021 a 2027.

Yn Abergele, mae 2,014 yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011, sef 19.6% o'r boblogaeth. Yn Abergele felly y ceir yw'r tri nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn ôl cyngor cymuned yng Nghonwy. Mae Abergele wedi'i nodi fel ardal sy'n strategol bwysig ar gyfer y Gymraeg yn yr ardal. Mae'r safle hefyd yn agos at ward etholiadol Pensarn, lle mae 28.4% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - ac sydd felly'n ardal ieithyddol sensitif. Mae Llanddulas, Rhyd y Foel a Llysfaen hefyd gerllaw, lle gall 19%+ o'r boblogaeth siarad Cymraeg.

Mae'r ardal hon o fewn y Cynllun i'r dwyrain o arfordir Conwy, a chyda'i dosbarthiad gofodol gallai fod o gymorth i liniaru rhywfaint o effaith y datblygiad arfaethedig hwn ar y broydd gwledig ac ar safleoedd eraill sy'n sensitif o ran y Gymraeg. Fodd bynnag, gan ei fod yn ddatblygiad mawr ac oherwydd pwysigrwydd Abergele a'r cyffiniau, mae potensial iddo ddenu cymudwyr i mewn i'r ardal ac/neu fewnfudwyr o'r Dwyrain. Gallai datblygiadau adwerthu a chyflogaeth ddenu siaradwyr Cymraeg o'r broydd i Abergele, allan o gymunedau gwledig.

Oherwydd maint a graddfa'r safle hwn, nodir yng nghanllawiau TAN 20 ei bod yn ofynnol cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg. Byddai hyn hefyd yn unol â safonau ac arfer da o ran y Gymraeg - bod effaith penderfyniadau polisi sylweddol yn cael ei hasesu. Bydd hyn yn gyfle i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac i sicrhau bod mesurau lliniarol ar waith er mwyn sicrhau na cheir unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg.

Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig

1. Llanrwst

Mae Llanrwst yn ardal ieithyddol sensitif, lle gall 61% o'r boblogaeth siarad Cymraeg. Diffinnir ardal a chanddi ganran sylweddol o siaradwyr Cymraeg fel y fro Gymraeg (Atchinson, J a Carter, H (1998)). Defnyddir y Gymraeg o ddydd i ddydd yn rhan o fywyd beunyddiol, a dyma ganolbwynt llawer o fröydd Cymraeg cyfagos. Mae'r Gymraeg yn rhan o wead yr ardal, a hefyd yn strategol bwysig i bolisi cenedlaethol - Cymraeg 2050.

Ar ben hynny, mae Llanrwst yn strategol bwysig fel tref. Mae'r dref ar garreg drws llawer mwy o ardaloedd ieithyddol sensitif yn y rhanbarth (ee, Trefriw, Llanddoged, Maenan), ac yn ganolfan wasanaeth i'r ardaloedd hynny ac yn cynnal cymunedau cynaliadwy gwledig ar raddfa ehangach.

I grynhoi, mae Llanrwst yn safle strategol pwysig sy'n cyfrannu at strategaeth yr awdurdod ar gyfer y Gymraeg ac at y strategaeth genedlaethol o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg

erbyn 2050. Mae'r datblygiad tai a gynigir yn y rhanbarth hwn yn fawr, ac yn ôl TAN 20 mae'n ofynnol cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg.

Gwyddys y gall datblygiadau tai mewn ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg ac yn y broydd Cymraeg ar raddfa ehangach, effeithio ar brisiau tai a chyfraddau mudo net. Mae'n debygol y bydd y safle strategol yn cynnwys 40-60 o unedau tai fforddiadwy, ond mae'r union niferoedd yn ddibynnol ar y polisi tai fforddiadwy. Dylid asesu'r rhaglen hon i weld a allai hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac atal effeithiau negyddol. Mae'n rhaid i'r asesiad sicrhau ei fod yn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Bydd angen i'r asesiad effaith roi ystyriaeth ofalus i effeithiau posibl y twf mewn tai yn y rhanbarth a'r modd y gall ddiogelu'r Gymraeg yn yr ardal dan sylw.

Yn rhan o'r asesiad hwn, bydd angen ystyried yr effeithiau ar fusnesau lleol er mwyn canfod yr effeithiau posibl ar fusnesau presennol a swyddi lleol. Bydd angen mesurau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. Dylai'r asesiad hwn gynnwys ystyried yr effeithiau ar swyddi i siaradwyr Cymraeg a chyfleoedd i gynnal a gwella gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael i bobl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai'r asesiad hefyd ymdrin â ffyrdd i hyrwyddo a chefnogi cynaliadwyedd a chydnerthedd cymunedau yn yr ardal hon, yn unol â'r polisi cenedlaethol ar gyfer creu lleoedd (Polisi Cynllunio Cymru, 2018).

Bydd y defnydd hamdden ac adwerthu a gynigir yn y Cynllun yn cael eu hasesu i hyrwyddo eu hargaeledd drwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Pentrefi Gwledig Haen 2

Oherwydd nifer yr ardaloedd ieithyddol sensitif yn yr ardal hon, byddai'n ofynnol cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg a gweithredu mesurau lliniaru pe ceid unrhyw ddatblygiadau ynddi.

Mae mesurau lliniaru buddiol allai gael eu hystyried yn cynnwys tai fforddiadwy wedi'u targedu at siaradwyr Cymraeg lleol er mwyn lleihau'r risg o allfudo, yn ogystal â defnyddio cytundebau a106 yn unol â TAN 6 i ddarparu cyllid ychwanegol i'r Cyngor hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a chreu cymunedau Cymraeg eu hiaith sy'n gydnerth a chynaliadwy. Gallai mesurau lliniaru gynnwys y canlynol, ymhlith eraill: cyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned, pecynnau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i unrhyw breswylwyr newydd sy'n symud i'r ardal, cymorth ariannol i

gynnal gweithgareddau cymdeithasol a hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gymuned, a chynyddu'r gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gymuned.

6.3 Asesiad lefel uchel o'r effaith ar y Gymraeg

- 6.3.1 Cwblhawyd asesiad o effaith y Strategaeth a Ffefrir yn ei chyfanrwydd ar y Gymraeg drwy ddefnyddio'r rhestr wirio 18 pwynt a ddatblygwyd ac a argymhellwyd yn yr adroddiad - Y Gymraeg a Chynllunio: y ffordd ymlaen (2005). Ceir hyd i'r rhestr wirio wedi'i chwblhau yn Atodiad 1.
- 6.3.2 Mae'n darparu asesiad effaith lefel uchel gyffredinol, ac yn defnyddio nifer o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys y Strategaeth a Ffefrir ei hun, dadansoddiad o'r cyflenwad o dir ar gyfer tai, data Cyfrifiad 2011, y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, data ar gyflogaeth a'r boblogaeth yn ogystal â pholisi cynllunio'r Gymraeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, polisi a deddfwriaeth genedlaethol, arfer gorau ac adolygiad o ddeunydd darllen ehangach.
- 6.3.3 Dyma brif gasgliadau'r asesiad hwnnw o'r effaith ar y Gymraeg:
- mae'r Strategaeth a Ffefrir yn rhagweld ei bod hi'n debygol y ceir cynnydd yn y boblogaeth ac y daw'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwnnw yn sgil mewnfudo. Ar sail y gwaith dadansoddi data a gyflawnwyd, mae'n debygol mai'r di-Gymraeg fydd i gyfrif am y rhan fwyaf o'r twf, a bod cyfran fechan o'r rheiny yn debygol o ddysgu Cymraeg. Lle bo safleoedd wedi'u cynnig yn agos at ardaloedd Cymraeg eu hiaith, gallai hynny gael effaith andwyol ar y Gymraeg a bydd angen cynllunio safleoedd a seilwaith yn ofalus, a threfnu datblygiadau fesul cam, ac ystyried gweithredu mesurau rhagweithiol i hyrwyddo'r Gymraeg.
 - Er mwyn bodloni'r twf yn y boblogaeth, gallai'r dyraniad o 5,150 o dai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy, gael effaith gadarnhaol ar bwysau tai, ac felly ar brisiau tai. Gan hynny, mae'n bosibl y gallai'r cynlluniau hyn fod yn gadarnhaol eu heffaith, drwy annog siaradwyr Cymraeg i aros yn yr ardal.
 - Gallai'r cyfleoedd am swyddi a gynigir drwy'r Strategaeth a Ffefrir ehangu a chynyddu amrywiaeth o ran y mathau o gyflogaeth a'r sectorau yn y fwrdeistref sirol. Byddai hyn yn debygol o annog preswylwyr, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, i barhau i breswyllo a gweithio yn yr ardal. Fodd bynnag, gallai'r datblygiadau sy'n cael eu cynnig, gan gynnwys datblygiad Arfordir y Dwyrain o amgylch Abergele, ddenu mewnfudiad yn sgil

cyflogaeth. Ceir cyfleoedd felly i sicrhau bod pobl leol yn ymwybodol ac yn gallu (drwy hyfforddiant a seilwaith) cyrchu'r swyddi newydd hyn.

iv. Mae'r cynllun yn cynnwys datblygiadau ysgol newydd, ac ynghyd â'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol, gallai effeithiau cadarnhaol gael eu gwireddu, o ran cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn sgil hynny.

v. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys cynigion i gynyddu gwasanaethau a chyfleusterau hamdden/cymdeithasol ee, rhandiroedd. Gallai hyn fod yn gyfle i gynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, a hefyd i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg yn eu bywyd beunyddiol.

vi. Gallai cynyddu'r unedau busnes ac/neu adwerthu mewn rhai safleoedd sydd wedi'u neilltuo gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, drwy wella a chryfhau'r economi a gwasanaethau yn yr ardaloedd ieithyddol sensitif hynny. Ceir risg bosibl yn gysylltiedig â hynny hefyd, sef effeithio ar fusnesau presennol ac/neu symud cwsmeriaeth gyfredol o ardaloedd ieithyddol sensitif i wasanaethau a chanolfannau adwerthu newydd. Cynghorir asesiadau effaith pellach ar gyfer y senarios hyn, yn ogystal â mesurau lliniaru a threfniadau parhaus i fonitro'r effeithiau ar y Gymraeg dros oes y cynllun.

6.4 Themâu a nodwyd yn gysylltiedig â'r Gymraeg wrth ddadansoddi'r Strategaeth a Ffefrir

6.4.1 Mae dadansoddiad wedi'i gwblhau o feysydd Amcanion a Pholisi Strategol y Strategaeth a Ffefrir er mwyn asesu i ba raddau y maent yn ystyried materion y Gymraeg. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r dadansoddiad hwn, ac mae map manylach o'r dadansoddiad fesul maes blaenoriaeth strategol ar gael yn Atodiad 2.

6.4.2 Yn y Strategaeth a Ffefrir, nodir bod disgwyl cynnydd o oddeutu 5.6% i boblogaeth Conwy, ac mai mudo fydd y prif ffactor i ysgogi'r newid hwn. Mae newid poblogaeth mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith yn ffactor pwysig, wrth golli siaradwyr Cymraeg pan fydd pobl yn allfudo neu'n marw, ac wrth i'r di-Gymraeg fewnfudo i'r ardal. Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae tua 27% o boblogaeth Conwy yn siarad Cymraeg, ac mae hyn 8% yn uwch na'r un ganran ar gyfer poblogaeth Cymru. Fodd bynnag, mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn gostwng dros amser.

6.4.3 Mae'r boblogaeth wedi tyfu yn yr ardal - yn y 15 mlynedd ers 2002 cafwyd cynnydd o 6,250 neu 5.6% o ran poblogaeth - cyfartaledd o 0.4% y flwyddyn. Cafwyd mwy o

farwolaethau na genedigaethau yn yr ardal - gyda chyfartaledd o 1,500 o farwolaethau y flwyddyn a 1,150 o enedigaethau y flwyddyn dros gyfnod o ddeng mlynedd. Byddai poblogaeth Conwy yn gostwng ar gyfradd o oddeutu 350 o bobl y flwyddyn heb unrhyw fewnfudo net i'r ardal. Er hynny, effaith y duedd hon yw bod cyfanswm a chanran gyffredinol y siaradwyr Cymraeg yn gostwng.

- 6.4.4 Ail fater a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir yw bod poblogaeth Conwy yn heneiddio, a bod y gyfradd heneiddio honno'n gyflymach o'i chymharu â'r rhan fwyaf o Gymru sydd yn weddill. Mae 16.2% o'r boblogaeth dan 16 oed, a hynny'n cymharu ag 17.9% ar gyfer Cymru gyfan. Yng Nghonwy, mae 27.2% o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn o gymharu â 20.6% ar gyfer Cymru gyfan.
- 6.4.5 Un mater sy'n allweddol i'r CDLI yw hyrwyddo strwythur oedran mwy cytbwys ac annog y boblogaeth iau a theuluoedd i aros yn yr ardal a dychwelyd iddi i gyfrannu at newid sylweddol yn y strwythur oedran a ragwelir ar gyfer y boblogaeth, a'r gostyngiad cysylltiedig yn y gweithlu.
- 6.4.6 Er mwyn i'r Gymraeg barhau i ffynnu fel iaith fyw, mae angen iddo annog plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn eu hardaloedd lleol. Ar ben hynny, mae sicrhau cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a thai fforddiadwy yn bwysig i'w wneud yn hyfyw i bobl ifanc a theuluoedd, ac i'w hannog i aros yn yr ardal.
- 6.4.7 Mae ymdeimlad o le a lles siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy hefyd yn bwysig yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau iechyd y Gymraeg yn y dyfodol a chefnogi cymunedau Cymraeg bywiog a chydnerth yn y sir. Caiff creu lleoedd ei archwilio yn y Strategaeth a Ffefrir ac mae potensial i greu cysylltiad mwy eglur rhwng hynny a'r Gymraeg.
- 6.4.8 Mae gan Gonwy gysylltiadau clir ag economïau ehangach i'r dwyrain ac i mewn i Loegr ac i'r gorllewin tuag at Ynys Môn ac Iwerddon. Mae mwyafrif y boblogaeth (85%) yn byw yn y prif ganolfannau trefol a leolir ar draws llain arfordirol y Gogledd, a gynhelir gan yr A55 a chyswllt rheilffordd. O'r dwyrain i'r gorllewin, mae'r rhain yn cynnwys Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy, Cyffordd Llandudno, Llandudno, Mochdre, Bae Colwyn, Llandrillo yn Rhos, Hen Golwyn, Abergele, Pensarn, Tywyn a Bae Cinmel. Mae canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn ychydig dros hanner y canolfannau trefol hyn, gan gynnwys y ganran uchaf o 20.3% (4,079) yn Llandudno.
- 6.4.9 Mae Llandudno ar y brig o safbwynt adwerthu a masnach, ac wedi'i diffinio fel Canolfan Is-ranbarthol yn y Strategaeth a Ffefrir. Yn ogystal â Llandudno, mae trefi arfordirol

Conwy a Bae Colwyn yn ganolfannau ar gyfer gwasanaeth, cyflogaeth, tai ac adwerthu ar gyfer yr ardaloedd ehangach, ac maent hefyd yn cynnwys niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae Llanrwst, sydd 13 milltir o'r arfordir, yn gweithredu fel canolfan wasanaethau allweddol i'r ardaloedd gwledig. Mae dros 21% o boblogaeth Llanrwst yn siarad Cymraeg, ac mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

6.4.10 Fel canolbwyntiau sy'n bwysig i'r fwrdeistref sirol, fe'u cydnabyddir yn y Strategaeth a Ffefrir am y rhan y maent yn ei chwarae yn yr economi. Fe'u nodir hefyd fel ardaloedd i gynhyrchu twf economaidd a ffyniant yn y dyfodol. Yn yr un modd, lle bo'r rhain hefyd yn ardaloedd ieithyddol sensitif sydd yn strategol bwysig i bolisi Cymraeg lleol a chenedlaethol mae'n rhaid taro cydbwysedd er mwyn sicrhau na cheir unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg nac/neu ar siaradwyr Cymraeg yn sgil datblygiadau o'r fath. Y cydbwysedd gorau bosib yw creu Cymraeg sy'n iaith fywiog ac wedi'i chynnal a'i hategu gan economi sy'n tyfu.

6.4.11 Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn nodi tai ymhlith y materion, ac mae hyn hefyd yn berthnasol i gyflwr y Gymraeg yng Nghonwy. Mae'r prisiau tai cyfartalog yn y fwrdeistref sirol wedi codi, a thra bo pris eiddo cyfartalog yng Nghymru yn £150,846, mae'r cyfartaledd yng Nghonwy £3,016 yn uwch.

6.4.12 Gwyddys bod tai fforddiadwy yn effeithio ar allu siaradwyr Cymraeg i aros mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi cyfrifo bod angen 120 o unedau tai fforddiadwy yn fras bob blwyddyn, neu 1,800 hyd at 2033.

6.4.13 Disgwylir hefyd i bleidlais y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd hefyd effeithio ar economi cymunedau gwledig. Ar sail dadansoddiad ystadegol o ddata'r Cyfrifiad, bydd angen ystyried ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith yng Nghonwy yn rhan o'r blaenoriaethau economaidd gwledig a nodir yn y Strategaeth a Ffefrir.

6.4.15 Ac yn olaf, mae'r twf a ragwelir ynghyd â Bargen Twf Gogledd Cymru yn rhan bwysig o'r uchelgais a nodir yn y Strategaeth a Ffefrir. Mae Conwy mewn ardal ganolog ym Margen Twf Gogledd Cymru, a disgwylir iddi gynhyrchu bron 5,500 o swyddi newydd a chyflwyno £671 miliwn o fuddsoddiad i'r rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf. Mae cyfanswm o 16 o brosiectau wedi'u cynllunio, gan gynnwys prosiectau carbon isel ac ynni niwclear; ymchwil prifysgol; cysylltiadau trafndiaeth gwell a thyfu busnesau digidol; cynyddu sgiliau a chyfleoedd i gadw mwy o bobl ifanc yn yr ardal.

6.4.16 Mae'n bwysig i'r CDLI ddarparu tir i fodloni'r gofynion a ragwelir o ran datblygu'r economi; fodd bynnag, mae hi yr un mor bwysig bod safleoedd newydd fod yn gymesur

fel nad yw'n cael effaith andwyol ar yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith na'r siaradwyr Cymraeg ynddynt. Yn yr un modd, ni ddylid darparu safleoedd tai ar raddfa ormodol pe gallai hynny gael effaith andwyol ar sefyllfa'r Gymraeg mewn anheddiad neilltuol. Yn ogystal â hyn, mae angen i'r broses gynllunio ystyried yr effaith ar leoedd addysg, a'r modd y gallai hynny wedyn effeithio ar natur ieithyddol ysgolion, eu categori cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, a'r effaith gyffredinol honno ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg y cyngor sir. Ar ben hynny, mae angen i'r broses gynllunio alluogi gwasanaethau a chyfleusterau i fod ar gael yn Gymraeg, a chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i hyrwyddo a chefnogi defnydd cynyddol o'r Gymraeg ymhlith pobl yn eu bywydau beunyddiol.

6.4.17 Ceir crynodeb isod o'r effeithiau a nodwyd ar sail y dadansoddiad a gwblhawyd o'r Amcanion Strategol yn y Strategaeth a Ffefrir:

Dadansoddiad o'r Amcanion Strategol yn y Strategaeth a Ffefrir - Yr effaith ar y Gymraeg

- | |
|---|
| <ol style="list-style-type: none"> 1. Amcan strategol 2 i gynnwys tai fforddiadwy ar gyfer ardaloedd ieithyddol sensitif ac i gynnwys allfudo/effaith net y gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg. Gallai'r adran hon hefyd ddefnyddio TAN 6 - i dargedu tai fforddiadwy a defnyddio cytundebau a106 fel mesurau lliniaru. 2. Amcan Strategol 4 i gynnwys gwella cyfleusterau mewn ardaloedd ieithyddol sensitif mewn ardaloedd trefol arfordirol lle ceir lefel uchel o amddifadedd. Hefyd, gallai'r amcan hwn wella cyfleusterau yn y broydd gwledig / mewn ardaloedd ieithyddol sensitif i gynnal cydlyniant cymunedol, cynaliadwyedd a'r ymdeimlad unigryw o le. 3. Amcan Strategol 6 - Trafnidiaeth - lle ceir gwasanaeth cyfyngedig neu wasanaethau anfynych mewn ardaloedd gwledig, gallai'r amcan geisio gwella hyn. Drwy gefnogi gwasanaethau trafndiaeth gwell mewn ardaloedd sensitif o ran y Gymraeg, bydd hynny'n gwella'r cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg fyw a gweithio'n lleol: gan gryfhau drwy hynny gynaliadwyedd cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith. 4. Amcan Strategol 7 - gwella telathrebu mewn ardaloedd gwledig - yn cynnwys amcan i wella seilwaith mewn ardaloedd ieithyddol sensitif. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd sydd ar gael i gychwyn busnes ac arallgyfeirio busnes, gan effeithio'n gadarnhaol drwy hynny ar gynaliadwyedd y broydd gwledig. 5. Amcan Strategol 8 - mae cyfle i gryfhau'r amcan hwn drwy gynnwys ymrwymïadau i hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg drwy safleoedd diwylliannol a hanesyddol cysylltiedig. Ar ben hynny, ceir cyfle yma i hyrwyddo ymdeimlad unigryw o le drwy ddatlu natur unigryw y Gymraeg yn y lleoedd hyn. |
|---|

6.4.18 Ceir mwy o fanylion am bob amcan yn y Strategaeth a Ffefrir y cynhaliwyd asesiad effaith arno yn y tabl yn Atodiad 3:

6.5 Mesurau Lliniaru ar ôl ymgynghori

6.5.1 Wrth symud y cynigion ymlaen ar ôl ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir, bydd angen datblygu mesurau lliniaru ymhellach. Dyma enghreifftiau o'r mesurau lliniaru a nodwyd hyd yma drwy'r asesiad effaith lefel uchel cychwynnol hwn:

- Cyflwyno datblygiadau tai yn raddol er mwyn sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cyflwyno mewn modd cynaliadwy fel nad ydynt yn cael effaith negyddol ar gymunedau, o ran cymathiad a diwylliant lleol (ee, Y Gymraeg).
- Ar gyfer datblygiadau tai newydd graddfa fawr, efallai y bydd angen pecynnau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gwersi dysgu Cymraeg yn y gymuned.
- Bydd darparu tai fforddiadwy i fodloni angen lleol o gymorth i gadw pobl leol, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig.
- Gellir defnyddio cytundebau adran 106 i ariannu camau rhagweithiol i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd ieithyddol sensitif.
- Ar gyfer cynigion cyflogaeth, lle bo'n briodol, efallai y bydd angen contractau llafur lleol a chefnogaeth ar gyfer mentrau hyfforddi lleol, yn ogystal â chefnogaeth a chyllid ar gyfer sesiynau ymsefydlu iaith a gwersi iaith i'r staff.
- Ar gyfer datblygiadau newydd gydag elfennau masnachol, busnes ac / neu adwerthu, gellir cynnwys gofynion ynghylch arwyddion Cymraeg a darpariaeth gwasanaeth dwyieithog.
- Cefnogaeth a chyllid ar gyfer gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cyfrannu at ymdeimlad o le ac at gymunedau cynaliadwy, yn ogystal â chyfleoedd i ariannu mentrau diwylliannol a mentrau iaith i annog y defnydd o'r iaith o fewn cymunedau. Dylid archwilio hyn ymhellach yng nghanol y cais cynllunio drwy ymgynghori â grwpiau lleol.
- Cynnal arolygon wedi'u targedu o feddianwyr datblygiadau tai newydd, ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI ac ar hap-ddatblygiadau er mwyn casglu gwybodaeth am nodweddion cymdeithasol y preswylwyr newydd. Gallai arolwg o'r fath fod o gymorth i fonitro effeithiau datblygiadau newydd ar y Gymraeg. Mae'r gofyniad hwn wedi'i gynnwys yn fframwaith monitro'r CDLI, a hefyd wedi'i nodi fel gofyniad posibl i'w gynnwys mewn Datganiadau Lliniaru ar gyfer unrhyw geisiadau dilynol lle mae'n ofynnol cynnal Datganiad Iaith Cymuned neu Asesiad Effaith ar

Gymuned. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Comisiynydd Iaith a Menter Iaith Conwy i ddatblygu gwaith yr arolwg ymhellach, drwy gynnwys tystiolaeth anecdotaidd ochr yn ochr â ffynonellau ystadegol.

- Hyrwyddo natur unigryw yr ardal leol drwy ddefnyddio arwyddion ac enwau lleoedd Cymraeg.
- Gall cynigion twristiaeth wneud defnydd o'r Gymraeg mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd i atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol a antur unigryw yr ardal. Efallai y bydd angen defnyddio'r Gymraeg fel sgîl llafur ar gyfer rhai datblygiadau twristiaeth.
- Gwarchod cyfleusterau lleol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig lle byddant yn gweithredu fel canolbwynt a mannau cyfarfod, a lle bo modd gweld a chlywed y Gymraeg.

7 Monitro

- 7.1 Cyflawnir gwaith monitro blynyddol ar y polisi a'r ceisiadau a gyflwynir er mwyn sicrhau bod y trothwyon yn briodol, ac nad yw datblygiad yn cael effaith negyddol ar nifer y siaradwyr Cymraeg. Bydd hi'n bwysig monitro effeithiolrwydd y polisi drwy'r datganiadau lliniaru a gyflwynir, a thrwy ddefnyddio datganiadau cymuned ac iaith, ac asesiadau effaith ar gymuned ac iaith. Bydd cynnal arolygon deiliadaeth tai hefyd yn cyfrannu at fonitro mudo a phatrymau siarad Cymraeg.

Atodiad 1

Asesiad o Effaith Strategaeth a Ffefrir Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y Gymraeg, Gorffennaf 2019.

Asesiad lefel uchel yw hwn o effaith y Strategaeth a Ffefrir yn gyffredinol ar y Gymraeg. Mae'n seiliedig ar y templed a argymhellwyd a'r asesiad effaith lefel uchel 18 pwynt a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd yn 'Cynllunio a'r Gymraeg: y ffordd ymlaen '(2005). Defnyddiwyd yr asesiad effaith blaenorol a ddiweddarwyd ar gyfer CDLI Conwy yn 2011 hefyd ar gyfer y dadansoddiad hwn.

Mae'n darparu asesiad effaith lefel uchel o'r Strategaeth a Ffefrir yn ei chyfanrwydd ac wedi'i gefnogi gan ystod eang o ddata a nifer o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys y Strategaeth a Ffefrir ei hun, papur ar y cyflenwad o dir ar gyfer tai, data'r Cyfrifiad, bwletinau ystadegol ac adroddiadau ymchwil, Strategaeth Cymraeg mewn Addysg Conwy, data cyflogaeth a'r boblogaeth yn ogystal â pholisi cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y Gymraeg, polisi a deddfwriaeth genedlaethol, arfer gorau ac adolygiad ehangach o ddogfennau.

Nodweddion y Boblogaeth

1. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at gynnydd / ostyngiad yn y boblogaeth a allai:	
Effeithio ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg / Saesneg (mewn modd negyddol / cadarnhaol)?	Arwain at ostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg, ar ffurf niferoedd neu gyfran?

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cyflwyno tystiolaeth i awgrymu y bydd poblogaeth Conwy yn tyfu dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn mynd i'r afael â'r twf a ragwelir yn y boblogaeth a'r angen am dai a nodwyd yn sgil hynny, sef 4,300 (neu 5,150 o gynnwys y swm wrth gefn).

O ddata'r Cyfrifiad, gwyddom fod poblogaeth siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn gostwng, er bod y boblogaeth yn gyffredinol wedi tyfu a bod disgwyl iddi barhau i wneud hynny (ar wahân i ambell gymuned lle cafwyd cynnydd yn y canrannau). Mae hyn yn golygu bod y twf mewn poblogaeth a'r twf yn sgil hynny mewn tai a gynllunnir ar gyfer yr ardal, yn debygol o fod yn gysylltiedig â mewnfudwyr. Mae angen ystyried yr effaith andwyol ar y Gymraeg a chymryd camau lliniaru ar gyfer hynny mewn penderfyniadau cynllunio.

Edrychai'r asesiad hwn ar y safleoedd sy'n cael eu neilltuo ar gyfer datblygiadau tai er mwyn canfod yr effaith gyffredinol debygol ar y Gymraeg. Mae'r asesiad lefel uchel o effeithiau a'r camau nesaf a awgrymir wedi'u cynnwys ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

Mae'r Strategaeth a Ffeirir yn cynnig lleoli 90% o'r twf yn Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir a 10% yn Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras ag ymraniad y boblogaeth gyfredol yng Nghonwy, ac mae'n fanteisiol am ei fod yn golygu bod datblygiad wedi'i leoli'n bennaf mewn ardaloedd sy'n darparu canolfannau gwasanaeth i'r fwrdeistref sirol gyfan. Dylai hyn hefyd fod o gymorth i warchod y Gymraeg yn y broydd gwledig.

Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd ieithyddol sensitif wedi'u neilltuo yn y cynllun. Dyma leoliadau safleoedd datblygu tai allweddol y cynllun:

Enw'r safle	Nifer yr anheddau
Llanfairfechan	400
Llanrhos	250
Hen Colwyn	450
Llanrwst	200

1. **Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Y Gorllewin** - Llanfairfechan a Phenmaenmawr yw'r ddau anheddiad trefol yn ardal y strategaeth hon. Cynigir safle strategol defnydd cymysg newydd yn Llanfairfechan, sy'n cynnwys 400 o gartrefi newydd, tai fforddiadwy, ysgol gynradd newydd a thir hamdden.

Mae Llanfairfechan a Phenmaenmawr yn ardaloedd ieithyddol sensitif yng Nghonwy, gyda 46.7% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn y naill a 33.8% yn gallu siarad Cymraeg yn y llall. Mae hynny'n uwch na chanran y boblogaeth genedlaethol sy'n gallu siarad Cymraeg, ac yn uwch na'r trothwy o 25% a nodwyd yn yr adroddiad, Cynllunio a'r Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen. Mae'r ardal hefyd wrth ymyl Parc Cenedlaethol Eryri, lle mae canran uchel o'r boblogaeth hefyd yn siarad Cymraeg.

Mae angen cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg i hyrwyddo cyfleoedd i gefnogi'r Gymraeg ac i liniaru unrhyw effeithiau andwyol yn sgil y datblygiad yn Llanfairfechan a'r cyffiniau.

2. **Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Y Creuddyn** - Cynigir Safle Strategol defnydd cymysg yn **Llanrhos** rhwng aneddiadau trefol Cyffordd Llandudno a Llandudno, yn cynnwys 250 o gartrefi newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy), tua 1 hectar o B1 (swyddfa) i hyrwyddo defnydd cyflogaeth clwstwr, ysgol gynradd newydd, rhandiroedd a thir hamdden.

Y Creuddyn, Llandudno, Cyffordd Llandudno a Chonwy yw prif aneddiadau trefol yr ardal hon, ac mae ganddynt rôl bwysig yn Ardal y Cynllun o safbwynt diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Mae Llandudno a Chonwy ymhlith y prif aneddiadau trefol yn yr ardal hon o fewn y Cynllun. Mae Conwy yn cynnwys poblogaeth o 27.3% o siaradwyr Cymraeg (3,901) a Llandudno yn cynnwys 20.3% (4,079). Maent yn ardaloedd ieithyddol sensitif oherwydd y canrannau (fel y'u diffinnir ym mholisi cynllunio'r Gymraeg yng Nghonwy, ac ar sail y trothwy yn Cynllunio a'r Gymraeg). Ar ben hynny, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn sylweddol yn gyffredinol yng Nghonwy ac yn genedlaethol.

Mae'r safle defnydd cymysg a gynigir wedi'i leoli yn Llanrhos, ac felly mewn lleoliad strategol wrth ymyl Conwy sydd yn ardal ieithyddol sensitif lle mae 27.3% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg a Llandudno, sydd yn ardal strategol bwysig lle mae 20.3% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Ceir cymunedau eraill hefyd gerllaw, ee Mochdre, Deganwy, lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol: gan hynny, mae'r holl ardal yn strategol bwysig.

Fel yr argymhellir yn Cynllunio a'r Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005) mae angen cynnal asesiad effaith ar gyfer y rhain. Mae angen i'r asesiad ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr ardal ehangach o amgylch y safleoedd a glustnodwyd i'w datblygu. Gall

datblygiadau cyflogaeth a thai gael effaith ar yr ardal leol a hefyd ac yn ehangach na'r gytref lle mae'r cyflenwad adeiladu wedi'i ddyrannu.

3. **Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Canolog** - Safle Strategol i'r de o Hen Golwyn yn cynnwys 450 o gartrefi newydd, rhandiroedd a thir hamdden.

Mae Bae Colwyn yn gwasanaethu anghenion y dalgylch o safbwynt preswyl, adwerthu ac economaidd. Mae'n parhau i dderbyn buddsoddiad sylweddol, ac mae gwaith gwella yn dal i gael ei gyflawni yng nghanol y dref ac ar lan y môr. Er mwyn parhau i fuddsoddi ac adfywio'r ardal ymhellach dros Gyfnod y Cynllun, mae safle strategol i'r de o Hen Golwyn sy'n cynnwys 450 o gartrefi newydd a thir hamdden wedi cael ei neilltuo.

Mae'r ardal hon yn cynnwys sawl ardal sydd o bwysigrwydd strategol i'r Gymraeg. Er enghraifft, Mochdre (22.5%), Hen Golwyn (21.9%) a Llysfaen (21.1%) lle mae canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn Hen Golwyn, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn sylweddol o fewn y Sir, gyda 1,719 yn gallu siarad Cymraeg yn ardal y cyngor cymuned. Mae Llandrillo yn Rhos hefyd yn yr ardal hon, lle mae 18.4% (1,366) o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Oherwydd cyfuniad y safleoedd hyn yn yr ardal dan sylw, a maint y safle yn y CDLI, mae'n ofynnol cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg yn unol â TAN 20 a pholisi cynllunio'r Gymraeg yng Nghonwy.

Bydd angen i'r asesiad hwn gynnwys dadansoddiad o effeithiau cadarnhaol a negyddol twf mewn tai (35% o'r cyfanswm yn y cynllun) ar y Gymraeg a'u cymunedau, gan gynnwys Hen Golwyn, Llysfaen a Bryn y Maen ymhlith eraill, ond hefyd yr ardaloedd oddi amgylch. Bydd yr asesiad hwn yn ystyried sut i liniaru'r effeithiau negyddol a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy cyffredinol. Ar ben hynny, dylid ystyried cyfleoedd i ddysgu'r iaith a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y Gymraeg yn rhan o'r gymysgedd o fesurau lliniaru.

4. **Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Y Dwyrain** - Mae De Ddwyrain Abergele yn brosiect allweddol ym Margen Twf Gogledd Cymru. Cyflogaeth Defnydd Cymysg (4.7 Hectar o B1, B2 a B8), Tir Hamdden ac Ysgol Gynradd. Cyflwynir y safle fesul cam rhwng 2021 a 2027.

Yn Abergele, mae 2,014 yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011, sef 19.6% o'r boblogaeth. Yn Abergele felly y ceir y trydydd nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn ôl cyngor cymuned yng Nghonwy. Mae Abergele wedi'i nodi fel ardal sy'n strategol bwysig ar gyfer y Gymraeg yn yr ardal. Mae'r safle hefyd yn agos at ward etholiadol Pensarn, lle mae 28.4% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - ac sydd felly'n ardal ieithyddol sensitif. Mae Llanddulas, Rhyd y Foel a Llysfaen hefyd gerllaw, lle gall 19%+ o'r boblogaeth siarad Cymraeg. Ar y cyfan, mae'r asesiad effaith yn awgrymu y gallai cyfleusterau newydd yn Abergele gael effaith andwyol ar y cymunedau oddi amgylch. Gallai datblygiadau adwerthu a chyflogaeth ddenu siaradwyr Cymraeg o'r broydd i Abergele, allan o gymunedau gwledig.

Mae'r ardal hon o fewn y Cynllun i'r dwyrain o arfordir Conwy, a chyda'i dosbarthiad gofodol gallai fod o gymorth i liniaru rhywfaint o effaith y datblygiad arfaethedig hwn ar y broydd gwledig ac ar safleoedd eraill sy'n sensitif o ran y Gymraeg. Fodd bynnag, gan ei fod yn ddatblygiad mawr ac oherwydd pwysigrwydd Abergele a'r cyffiniau, mae potensial iddo ddenu cymudwyr i mewn i'r ardal ac/neu fewnfudwyr o'r Dwyrain. Gallai hyn greu cystadleuaeth am swyddi yn yr ardal, a dylid ystyried mesurau i ymdrin â hyn cyn cam y Cynllun Newydd.

5. **Y Strategaeth Datblygu Gwledig - Llanrwst** - Dim ond 10% o safleoedd sydd wedi'u neilltuo mewn ardaloedd gwledig yn y cynllun yn gyffredinol, ac yn Llanrwst y mae mwyafrif y datblygiad sydd wedi'i gynllunio.

Mae Llanrwst wedi'i nodi fel ardal ieithyddol sensitif lle mae 61% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Diffinnir ardal a chanddi ganran sylweddol o siaradwyr Cymraeg fel y fro Gymraeg (Atchinson, J a Carter, H (1998)). Defnyddir y Gymraeg o ddydd i ddydd yn rhan o fywyd beunyddiol, a dyma ganolbwynt llawer o fröydd Cymraeg cyfagos. Mae'r Gymraeg yn rhan o wead yr ardal, a hefyd yn strategol bwysig i bolisi cenedlaethol - Cymraeg 2050.

Ar ben hynny, mae Llanrwst yn strategol bwysig fel tref. Mae'r dref ar garreg drws llawer mwy o ardaloedd ieithyddol sensitif yn y rhanbarth (ee, Trefriw, Llanddoged, Maenan) ac yn ganolfan wasanaeth i'r trefi, pentrefi a phentrefannau ac yn cynnal cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith ar raddfa ehangach.

I grynhoi, mae Llanrwst yn safle strategol pwysig sy'n cyfrannu at strategaeth yr awdurdod ar gyfer y Gymraeg ac at y strategaeth genedlaethol o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r datblygiad tai a gynigir yn y rhanbarth hwn yn fawr, ac yn ôl TAN 20 mae'n ofynnol cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg.

6. Y Strategaeth Datblygu Gwledig - pentrefi eraill.

Ceir Prif Bentreffi, Pentrefi Llai a Phentrefannau Haen 2 yn Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig, ac mae llawer o'r rhain yn ardaloedd ieithyddol sensitif, ee, Betws yn Rhos (46.4%), Llangernyw (64.4%), Cerrigydrudion (77.2%) lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan hanner y boblogaeth neu fwy ac yn rhan o wead cymdeithasol yr ardal. Mae mwyafrif yr ardaloedd yn uwch na'r trothwy o 25% ac mae'r mwyafrif yn cynnwys canran uwch o siaradwyr Cymraeg na'r ganran genedlaethol o 19%.

Mae'n hanfodol bod Prif Bentreffi Haen 2 yn gynaliadwy a chydnerth fel bod gan y fwrdeistref sirol leoedd cynaliadwy yn unol â'r gofynion creu lleoedd ym Mholisi Cynllunio Cymru (2018). Gwasanaethu eu poblogaeth leol yn bennaf y mae'r aneddiadau hyn. Nodir felly yn y Strategaeth a Ffefrir y bydd twf lleol ac arallgyfeirio yn cael ei hyrwyddo er mwyn cadw hunaniaeth y gymuned, gwarchod y Gymraeg ac annog strwythur oedran mwy cytbwys.

Yn ôl y Strategaeth a Ffefrir ni chaiff tir ei neilltuo ar gyfer datblygiadau newydd ym Mhentreffi Haen 2. Fel arall, bydd ymagwedd hyblyg yn cael ei mabwysiadu, fel y disgrifir yn TAN 6. Bydd ymagwedd adeiladol at gynigion datblygu amaethyddol yn cael ei mabwysiadu, yn enwedig y rhai hynny sydd wedi'u dylunio i fodloni anghenion yn gysylltiedig â newid mewn arferion ffermio. Bydd ymagwedd gadarnhaol yn cael ei mabwysiadu at drosi adeiladau gwledig i'w hailddefnyddio i ddibenion busnes, yn ogystal ag ymagwedd gadarnhaol at brosiectau arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig. Dylai'r dull hyblyg hwn helpu i gefnogi cynaliadwyedd a chydnerthedd cymunedau gwledig sydd, yn ei dro, yn debygol o helpu i gefnogi a broydd Cymraeg Conwy.

Nid oes unrhyw dai wedi'u neilltuo yn y Strategaeth a Ffefrir, ond os ceir unrhyw ddatblygiadau newydd, gan gynnwys hap-ddatblygiadau, bydd yn ofynnol cynnal asesiad llawn o'r effaith ar y Gymraeg a nodi a gweithredu unrhyw fesurau lliniaru.

2. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?	
A allai hyn arwain at gynydd parhaol yng nghyfran yr aelwydydd nad ydynt yn siarad Cymraeg?	A fydd y newid yn newid parhaol neu'n newid dros dro?

Wrth ystyried data poblogaeth blaenorol dros gyfnod y CDLI diwethaf, a'r rhagolygon i'r dyfodol, mae'n debygol y bydd y boblogaeth yn tyfu yng Nghonwy ac y bydd hyn yn cynnwys mewnfudo. Mae hyn yn golygu y gallai'r ganran gyffredinol o siaradwyr Cymraeg ostwng, gan fod cyfanswm y boblogaeth yn tyfu.

O'r 5 safle sydd wedi'u neilltuo yn y cynllun, y cynigion ar gyfer datblygu ar yr arfordir i'r dwyrain (o amgylch Abergele) ynghyd â'r Fargen Twf, sydd yn fwyaf tebygol o arwain at fewnfudo o'r dwyrain. Mae hyn oherwydd y datblygiadau cyflogaeth ac adwerthu sy'n cael eu cynnig, ynghyd â'r tai sydd wedi'u neilltuo yn yr ardal honno.

Yn ogystal â'r effaith negyddol o ostwng canran gyffredinol y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, gallai'r cynigion godi prisiau tai, newid categori ieithyddol ysgolion Cymraeg/dwyieithog a lleihau gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, o ran dwysedd y boblogaeth, mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn hyfyw ac yn cael ei defnyddio'n fynych ar hyn o bryd.

Wrth gynllunio ymlaen, dylid gweithredu mesurau rhagweithiol yn ogystal â mesurau lliniaru. Dyma rai enghreifftiau i'w hystyried:

- Cytundebau Adran 106 i ariannu mesurau rhagweithiol a lliniarol;
- Pecynnau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn datblygiadau tai newydd;
- Cyrsiau Cymraeg am ddim yn Abergele ac mewn ardaloedd ieithyddol sensitif yn y cyffiniau;
- Camau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i liniaru'r effeithiau;
- Cefnogaeth (gan gynnwys cyllid) ar gyfer gweithgareddau hamdden a chymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Sicrhau bod arwyddion mewn unedau adwerthu newydd yn ddwyieithog ac yn hyrwyddo ymdeimlad o le; a
- Lleihau'r niferoedd/gwasgaru dwysedd y tai ar unrhyw safle unigol neu mewn unrhyw ardaloedd ieithyddol sensitif;

- Cyflwyno'r datblygiadau fesul cam dros amser - sicrhau mai graddol yw'r effaith a'i monitro'n ofalus dros gyfnod o amser.

3. A yw'r strategaeth yn debygol o achosi mwy o allfudo?	
A yw aelwydydd Cymraeg eu hiaith yn debygol o gael eu colli yn sgil allfudo?	A fydd unrhyw newid yn newid parhaol neu'n newid dros dro?

Rhwng 2001 a 2011, cafwyd gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg oherwydd newidiadau demograffig i'r boblogaeth (gan gynnwys gostyngiad yn nifer y bobl ifanc, siaradwyr Cymraeg yn allfudo, y di-Gymraeg yn mewnfudo). Er gwaethaf y twf cyffredinol ym mhoblogaeth Cymru, cafwyd gostyngiad o oddeutu 20,000 yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Ymfudo oedd i gyfrif am 90% o'r twf yn y boblogaeth. Cafwyd cynnydd o 25% yng nghanran y boblogaeth a oedd wedi'i geni y tu allan i Gymru yn 2001 a 27% yn 2011. Yn ôl y SYG, nid oes gan 86% o'r boblogaeth a aned y tu allan i Gymru sgiliau Cymraeg.⁶

Mae'r tueddiadau dros amser yn dangos colled net o siaradwyr Cymraeg, a bod hyn wedi'i adrodd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru gyfan, yn hytrach nag ar gyfer Conwy yn unig. Mewn astudiaeth gan Fwrdd yr Iaith yn 2012, awgrymir colled net blynyddol o oddeutu 1,200 - 2,000 o siaradwyr Cymraeg.

Gan hynny, ceir cyfleoedd drwy'r Strategaeth a Ffeirir i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg a chyfrannu at Cymraeg 2050, y strategaeth genedlaethol. Gellid cyflawni hyn drwy sicrhau tai a swyddi i siaradwyr Cymraeg. Drwy sicrhau bod gan bobl leol swyddi a thai digonol o ansawdd da, byddant yn fwy tebygol o aros yn yr ardal. At ei gilydd, mae economi hyfyw yn cefnogi Cymraeg hyfyw, ac fel arall.

Ar ben hynny, ceir cyfle i gefnogi a chryfhau cymunedau fel eu bod yn gydnerth o ran economi ac iaith.

Drwy'r Strategaeth a Ffeirir, ceir cyfle i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn yr ardal, ac i feithrin a chryfhau ymdeimlad gwirioneddol o le,

⁶ Bwletin Ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Rhag 2012) - Cyfrifiad 2011: Y Canfyddiadau Cyntaf ar y Gymraeg

balchder yn eu cymunedau ac ymdeimlad o berthyn. Drwy greu lleoedd, ceir potensial i wneud pobl yn fwy awyddus i aros yng Nghonwy a defnyddio'r Gymraeg.

4. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at newid i strwythur oedran y gymuned?	
Arwain at sefyllfa lle mae pobl ifanc / pobl canol oed / pobl hŷn sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal / symud i mewn iddi, gan arwain at:	
Newidiadau mewn patrymau gweithgarwch traddodiadol, gan greu mwy o awydd i symud i ffwrdd?	Densiynau cymdeithasol / chwalu rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol

Mae'r Strategaeth a Ffeirir wedi cynllunio i ddyrannu 1,800 o dai fforddiadwy a 1,800 o swyddi. Gallai'r cynllun felly gael effaith gadarnhaol ar strwythur oedran poblogaeth Conwy, ac mae hyn wedi'i gynnwys fel nod allweddol yng nghynlluniau'r Cyngor.

Yn y dyfodol, gallai'r CDLIN gael effaith gadarnhaol ar bobl leol, gan gynnwys pobl ifanc, oherwydd y cyfle i greu ffurfiau a mathau newydd o swyddi, fel y cynigir yn y cynllun, a fydd yn ei dro yn golygu ei bod hi'n bosibl ac/neu'n ddymunol i barhau i fyw yn yr ardal.

Mae'r cynllun yn cynnwys rhai datblygiadau o ran y seilwaith cyfathrebu a gwella cyfleoedd teithio. Gallai'r rhain gael effaith gadarnhaol ar ffyniant economaidd y rhanbarth. Gallai hefyd greu manteision i'r preswylwyr, fydd yn gallu cyrchu mwy o wasanaethau a chyfleusterau o'u cartref, ac annog busnesau newydd, effeithlonrwydd a thwf.

Gallai datblygu'r seilwaith trafnidiaeth o'r dwyrain annog mewnfudo a allai, ymhen amser, gael effaith andwyol ar ganran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn y sir. Ni fyddai hynny ychwaith o gymorth i'r Cyngor gyrraedd ei darged i sicrhau cynnydd o 2% yn y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg dros y pum mlynedd nesaf. Gellid bod angen cynllunio rhaglenni hyfforddi i bobl leol i'w helpu i gael swydd. Ar ben hynny, gallai ymgyrchoedd rhagweithiol i godi ymwybyddiaeth o'r iaith, camau pwrpasol yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gwersi Cymraeg am ddim yn y gymuned fod yn fesurau lliniaru defnyddiol i'w hystyried.

Ansawdd bywyd, iechyd a lles

5. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar iechyd pobl leol?	
Cynyddu'r risg o salwch, gan wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?	A allai gynyddu costau byw, gan gynyddu'r risg o broblemau ariannol / straen y boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith

Gallai'r CDLIN wneud Conwy yn sir mwy dymunol i fyw ynddi, ac mae'r cynllun yn cydnabod rhinweddau arbennig yr ardal yn glir, gan gynnwys y dirwedd. Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd cadw ac ychwanegu at yr ymdeimlad arbennig o le, gan gynnwys tirwedd hardd Conwy. Wrth gynllunio ar gyfer datblygiad a thwf, mae'r cynllun yn nodi'n glir:

"Mae'n rhaid i'r CDLIN daro'r cydbwysedd cywir rhwng gwarchod yr elfennau hynny sy'n gwneud Conwy yn lle arbennig, gan gynorthwyo ar yr un pryd i hwyluso cyfleoedd newydd i dyfu ac adfywio, er mwyn cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy a chynyddu lles."

Drwy gadw'r tirweddau gwledig a cheisio gwarchod bioamrywiaeth ym mwrdeistref sirol Conwy, mae'r cynllun yn debygol o barhau i sicrhau bod y lle yn ddeniadol i breswylwyr.

Mae'r safleoedd sydd wedi'u neilltuo yn cynnwys amryw o fannau hamdden, gan gynnwys rhandiroedd. Mae'r rhain yn debygol o gyfrannu mewn modd cadarnhaol at iechyd a lles. Yn unol â'r ddogfen Cymraeg 2050 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai'r CDLIN a'r broses gynllunio ehangach gefnogi a hyrwyddo lles y Gymraeg a diwylliant Cymru. Un ffordd o wneud hynny fyddai sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor yn gysylltiedig â iechyd a lles ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Ffordd arall fyddai cefnogi (gan gynnwys ariannu) gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg - mewn ardaloedd trefol amddifadus ac mewn ardaloedd ieithyddol sensitif gwledig.

Gallai penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd yn enwedig effeithio ar gymunedau gwledig, a ffermio yn arbennig. Nodir hyn yn y Strategaeth a Ffefrir, a gellid ysgogi mentrau pellach, a mwy rhagweithiol, i gynhyrchu mathau newydd o fusnesau yn yr economi wledig, a fydd o gymorth i gadw a chynnal ardaloedd ieithyddol sensitif lle mae'r Gymraeg yn hyfyw, drwy weithio gydag adrannau eraill o fewn y cyngor a chyda phartneriaid ar raddfa ehangach.

6. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar amwynder yr ardal leol?	
Dirywio ansawdd yr amgylchedd, gan wneud y gymuned yn llai dymunol i fyw ynddi.	

Fel y dangoswyd yn 5 uchod, mae'r Strategaeth a Ffeirir yn ceisio adfywio ardaloedd yng Nghonwy a chynnig tai (gan gynnwys tai fforddiadwy) cyfleoedd adwerthu a hamdden, a swyddi newydd yn yr ardal. Gallai'r seilwaith sy'n cael ei gynnig hefyd wella'r opsiynau teithio (gan gynnwys cymudo) preswylwyr presennol, fel eu bod yn gallu canfod gwaith a chyfleoedd hamdden mewn canolfannau eraill, gan olygu bod byw yn lleol yn dal i fod yn bosibl ac yn ddeniadol.

Gan hynny, nid yw'r asesiad effaith hwn wedi canfod unrhyw effeithiau amgylcheddol perthnasol ar y Gymraeg.

7. A oes perygl i'r strategaeth achosi mwy o droseddu neu drais yn y gymuned?	
Cynyddu'r risg o droseddu neu drais, gan wneud y gymuned yn llai dymunol i fyw ynddi?	

Dros oes y CDLIN, amcangyfrifir y bydd y boblogaeth yn tyfu, ac mae rhwng 4,000 a 5,000 o dai wedi'u cynnig i'w datblygu. Mae naw deg y cant o'r twf hwn wedi'i wasgaru ar draws ardaloedd arfordirol Conwy. Er y gallai hyn gael rhywfaint o effaith ar drefniadau plismona, ni chanfu'r asesiad effaith unrhyw berygl o gynydd mewn troseddau neu drais yn y gymuned a allai effeithio'n uniongyrchol ar y Gymraeg ac/neu siaradwyr Cymraeg.

Ffactorau economaidd

8. A yw'r strategaeth yn debygol o niweidio busnesau lleol?	
Gallai achosi i fusnesau lleol - Cymraeg eu hiaith - gau, am y rhesymau canlynol:	

Gostyngiad yng nghyfanswm y boblogaeth leol?	Cynnydd yn nifer y preswylwyr di-Gymraeg?
Cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol / fuddiol?	

Mae'r twf a ragwelir yn y boblogaeth yn debygol o arwain at dwf yn y galw am fusnesau a gwasanaethau yng Nghonwy hefyd. Gallai hyn fod yn fanteisiol i fusnesau sy'n bodoli eisoes. Yn Abergele, Llanrwst, Llandudno a Hen Golwyn yn arbennig, lle mae datblygiadau ac/neu dai yn cael eu cynnig, gallai'r effaith ar fusnesau sy'n bodoli eisoes yn yr economi fod yn gadarnhaol.

Ar y llaw arall, mae'r Strategaeth a Ffeirir yn cynnwys manau adwerthu yn Abergele, a dyma'r trydydd cyngor cymuned yn y sir o ran nifer y siaradwyr Cymraeg. Gallai'r cynnig hwn wella'r gwasanaethau a'r cyfleusterau i bobl sy'n byw yn lleol yn Abergele a'r cyffiniau, ond gallai gael effaith negyddol ar fannau adwerthu sy'n bodoli eisoes yn Abergele a'r cyffiniau. Gallai siopwyr gael eu hatynnu i'r datblygiad newydd o gymunedau eraill, gan gynnwys Llandudno, Llysfaen, Llanddulas a Rhyd y Foel. Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, bydd hi'n bwysig sicrhau eu bod yn ychwanegu at fusnesau sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chystadlu â hwy. Ar ben hynny, bydd yn rhaid sicrhau bod y datblygiadau newydd hyn yn cyd-fynd â'r ardal ac yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le. Byddai arwyddion a gwasanaethau dwyieithog yn helpu siaradwyr Cymraeg i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r CDLIN yn cydnabod y bydd 'angen i ddatblygiadau newydd mewn canolfannau adwerthu fod yn gydnaws â graddfa a swyddogaeth y ganolfan honno, ac ystyried safle'r ganolfan yn yr hierarchaeth.' Bydd angen cyflawni gwaith pellach er mwyn ymchwilio i'r effaith bosibl ar y Gymraeg - lleoedd, pobl a gwasanaethau.

Asesiad economaidd mwy cyffredinol:

Ers mabwysiadu'r CDLI yn 2013, gwelwyd cynnydd mewn cyfraddau gweithgarwch economaidd yn Sir Conwy a, hyd hydref 2018 gwelwyd gostyngiad cyson mewn lefelau diweithdra, sy'n adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol yn fras dros y pum mlynedd diwethaf. Y gyfradd diweithdra ar gyfer mis Chwefror 2019, ar sail nifer yr hawlwr, oedd 3.1%. Mae hynny'n sylweddol uwch na'r ffigurau a welwyd dros oddeutu'r pedair blynedd diwethaf, ac yn adlewyrchu'r patrwm cenedlaethol lle gwelwyd cyfraddau hawlio yn cynyddu o'r naill fis i'r nesaf ers hydref 2018. Ar

hyn o bryd mae'r ffigur cyffredinol hefyd yn sylweddol uwch na chyfraddau Cymru (2.7%) a'r DU (2.6%), o bosib oherwydd natur dymhorol patrymau cyflogaeth y Fwrdeistref Sirol, sy'n seiliedig ar dwristiaeth.⁷

Er bod cyfraddau gweithgarwch economaidd yn tueddu i gynyddu, mae cyfanswm y bobl sy'n economaidd anweithgar yn fwy cyfnewidiol. Mae maint y boblogaeth oed gwaith yn effeithio ar hyn, ac yng Nghonwy, amcangyfrifir mai 56.6% yw canran y boblogaeth 16-64 oed, o gymharu â 61.5% yng Nghymru a 62.9% ar draws Prydain. Mae hyn yn arwain at gymarebau dibyniaeth uchel i'r boblogaeth a all roi straen ar yr economi ac ar strwythur cymdeithasol y gymuned. Bydd gwella cydbwysedd oedran cyffredinol poblogaeth Conwy hefyd o gymorth i gadw'r Gymraeg yn iach - gan fod niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn uwch ymhlith y grwpiau oedran iau.

Ceir cyfle drwy'r CDLIN i annog a chefnogi hyfforddiant i bobl leol gael swyddi yn y meysydd sy'n cael eu targedu ar gyfer twf, ee, adeiladu, STEM. Ceir cyfle hefyd i annog y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant ymwelwyr i hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan o'r strategaeth gyffredinol ar gyfer creu ymdeimlad gwirioneddol o le.

9. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol?	
Creu swyddi i'r boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg (efallai gan fod gan bobl leol sy'n siarad Cymraeg y sgiliau cywir)?	Bygwth swyddi'r boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg (efallai drwy achosi i fusnesau lleol gau)

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnig cyfleoedd am dwf mewn swyddi ac mae'r datblygiadau wedi'u lleoli'n bennaf ar hyd prif goridor yr A55. O'r 5 Safle Strategol Allweddol a gynigiwyd, mae 2 wedi'u lleoli ymhlith yr aneddiadau trefol uwch, sy'n cynnwys cyfanswm o oddeutu 6 hectar o dir cyflogaeth ynghyd â'r seilwaith angenrheidiol. Mae'r safle arfordirol a gynigiwyd i'r dwyrain yn cefnogi'r cynigion ym Margen Twf Gogledd Cymru. Cynigiwyd y safleoedd ar ôl deall capasiti a gofynion y seilwaith a hyfywedd, ac fe'u cefnogir gan ddarluniau cysyniadol.

⁷ Ffynhonnell: Cyfrif hawlwyr SYG

Dylai lleoli'r prif gynigion cyflogaeth ar draws yr A55 ac mewn ardaloedd trefol gefnogi cyfrannau mawr o'r boblogaeth yng Nghonwy. Ac i'r rheiny sy'n teithio o ardaloedd gwledig i'r gwaith, dylai'r seilwaith fod wedi'i sefydlu iddynt hwy allu manteisio ar y gyflogaeth honno hefyd.

Er bod y Strategaeth a Ffefrir yn lleoli datblygiad mewn ardaloedd trefol yn bennaf, ac felly'n ceisio lleihau'r effaith ar ardaloedd gwledig hyd yr eithaf, mae'n bwysig nodi bod niferoedd mawr o siaradwyr Cymraeg i'w cael mewn ardaloedd trefol, gan gynnwys Llandudno, Abergelle, Conwy a Bae Colwyn. Wrth gynllunio, mae'n bwysig sicrhau cyfleoedd am swyddi i bobl leol, oherwydd ceir risg y gallai datblygiadau greu cystadleuaeth gan rai sy'n chwilio am swyddi o'r tu allan i Gonwy. Ni fyddai hyn yn ymdrin â'r ystadegau cyflogaeth a nodwyd yn y cynllun.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn crybwyll y dylid mabwysiadu ymagwedd hyblyg at ddatblygiadau i gefnogi ardaloedd gwledig Conwy. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith mewn ardaloedd gwledig.

10. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd?	
A allai arwain at nifer fwy o wahanol swyddi i'r boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith - yn sgil arallgyfeirio economaidd?	Arwain at sefyllfa lle mae ceir mwy o fewnfudwyr di-Gymraeg?

Gallai Bargen Twf Gogledd Cymru gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd cyflogaeth ledled Conwy a'r rhanbarth ehangach. Dylai'r twf o 1,800 o swyddi sydd wedi'i gynllunio hyd at 2033 gyfrannu at strwythur oedran mwy cytbwys a lleihau lefelau allgymudo anghynaliadwy.

Ar sail gwaith cynllunio, awgrymir bod angen oddeutu 12-14 hectar o dir cyflogaeth ar gyfer swyddi newydd dros Gyfnod y Cynllun. Mae'r Strategaeth newydd wedi cynllunio tir i gynnwys 50% o'r 1,800 o swyddi i fodloni'r anghenion am B1 Busnes a 50% ar gyfer B2/B8 Warysau Diwydiannol.

Er bod gan y farchnad lafur bresennol lefel gymharol uchel o sgiliau, a'i bod yn cynnig pris cystadleuol i fusnesau, mae'r busnesau newydd yn gymharol brin, a rhagwelir na cheir twf mewn cyflogaeth yn y dyfodol. Mae economi Conwy felly'n wynebu sawl cyfle a her yn y blynyddoedd

nesaf. Fodd bynnag, disgwylir i nifer o brosiectau rhanbarthol gael eu cyflwyno yng nghyfnod y CDLIN a allai gael effaith gadarnhaol ar lefelau cyflogaeth, a denu mwy o bobl o oed gwaith i'r ardal, ee Lagŵn Llanw Bae Colwyn, Sefydliad Gweithgynhyrchu Uwch Glannau Dyfrdwy, Parc Gwyddoniaeth Menai, Parc Eco a Chanolfan Ynni Orthios, Parc Adfer a Chanolfan Ynni Wrecsam.

Mae'r sylfaen gynhyrchu wedi dirywio'n sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf i oddeutu 3.5% o swyddi erbyn 2017, ac fe geir gogwydd trwm tuag at gyflogaeth yn y diwydiannau gwasanaeth (yn enwedig yn y sector cyhoeddus) a'r sector twristiaeth. Ym Mwrdeistref Sirol Conwy mae cyflogaeth yn y sectorau sgiliau uchel a chyflog uchel, sef gwasanaethau technoleg a chyfathrebu, cyllid ac yswiriant, proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, a gweinyddu a chymorth busnes yn gymharol isel, gan greu cyfanswm o 13% yn unig o'r holl gyflogaeth o gymharu â 25% ar draws Prydain yn ei chyfanrwydd.

Mae cyfrannau'r swyddi yn y sectorau adwerthu, llety a gwasanaethau bwyd, a'r celfyddydau, adloniant a hamdden - y sectorau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth - yn uchel, ac yn cynrychioli cyfanswm o oddeutu 32% o'r holl swyddi, o gymharu â 21% yn genedlaethol. Y sectorau hyn yw'r rhai sydd yn fwyaf tebygol o gynnwys swyddi cyflog isel, rhan-amser neu dymhorol. Mae adroddiad STEAM o 2017 yn amcangyfrif bod y diwydiant twristiaeth yn darparu oddeutu 9,950 o swyddi yn uniongyrchol, a bod 2,350 o swyddi eraill wedi'u cefnogi'n anuniongyrchol gan y diwydiant - cyfanswm o tua 12,300 o swyddi, sydd yn sylweddol uwch na chwarter yr holl swyddi ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae twristiaeth yn denu oddeutu £888 miliwn bob blwyddyn i'r economi leol.

Yn yr Asesiad Anghenion Sgiliau (Papur Cefndir 20), adroddir bod prinder gweithwyr adeiladu, peirianwyr (trydanol a mecanyddol), syrfewyr, rheolwyr prosiect ac arbenigwyr ecoleg, neu fod hynny'n debygol yn y dyfodol, yn gysylltiedig â phrosiectau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru o fewn y 15 mlynedd nesaf. Mae twristiaeth yn faes arall sydd wedi'i hamlygu ar gyfer twf yn Strategaeth Economaidd Conwy 2017-2027, felly mae'r angen am swyddi a sgiliau i gefnogi'r sector hwn yn debygol o gynyddu.

I gloi, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn awgrymu y byddai cymysgedd fwy amrywiol o ddiwydiant a gweithgynhyrchu yn rhywbeth i'w chroesawu, felly byddai'n dda ystyried sut y gall cynlluniau yn y

dyfodol i ddatblygu'r CDLIN annog pobl leol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, i gael swyddi yn y meysydd newydd hyn.

11. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar lefelau tâl / cyflog lleol?	
A allai gynyddu / gostwng lefelau tâl / cyflog yn sgil cynyddu'r gweithlu / cystadleuaeth gan fusnesau?	

Mae oddeutu 32% o boblogaeth Conwy yn gweithio mewn diwydiannau'n gysylltiedig â thwristiaeth, bwyd a hamdden ar hyn o bryd, ond pe bai'r Cynllun yn annog cyfleoedd newydd mewn sectorau cyflogaeth mwy amrywiol, gallai'r lefelau tâl / cyflog gynyddu.

Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw effaith gadarnhaol na negyddol ar gyflogau siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy yn yr asesiad effaith lefel uchel.

12. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar gost gyfartalog tai?	
Gorfodi pobl leol - Cymraeg eu hiaith - i adael y gymuned?	A allai arwain at gynnydd mewn digartrefedd / straen yn gysylltiedig â thai ymhlith aelwydydd Cymraeg eu hiaith?
Atal pobl sy'n siarad Cymraeg rhag dychwelyd i'r ardal / gymuned?	

Gallai prisiau tai godi a'r angen am dai gynyddu:

Mae'r Strategaeth a Ffeirir yn cynnwys gofyniad am 4,300 o anheddau dros gyfnod y cynllun, ynghyd â 20% wrth gefn i gynyddu'r gofyniad cyflenwi tai cyffredinol i 5,150. Y bwriad yw gorgyflenwi yn gysylltiedig â'r gofyniad tai sylfaenol, er mwyn sicrhau bod 4,300 o anheddau yn cael eu darparu dros gyfnod y cynllun. Caiff y gofyniad tai hwn ei gyfrifo a'i gyfiawnhau'n fanwl yn BP01 (Asesiadau o Gyflenwad Tir ar gyfer Tai).

Mae'r Strategaeth a Ffeirir yn nodi pedwar safle strategol yn Llanfairfechan, Deganwy/Llanrhos, Hen Golwyn a Llanrwst sydd yn rhan o'r cyflenwad. Yn ogystal â hynny, bydd safleoedd llai yn

cael eu cynnwys yn y Cynllun Newydd, ac er nad yw lleoliad na nifer y safleoedd hyn yn hysbys ar hyn o bryd, tybir y bydd digon o safleoedd i fodloni'r lefel ofynnol o dwf o ran tai.

Dengys tystiolaeth fod allfudo, poblogaeth sy'n heneiddio a'r gallu i gadw'r boblogaeth o oedolion ifanc yn faterion i'w datrys yn y broes gynllunio yn y dyfodol. O ganlyniad i hynny, mae angen sicrhau bod y CDLIN yn ceisio bodloni anghenion tai poblogaeth sy'n heneiddio, ond hefyd yn sicrhau bod cartrefi newydd yn ceisio cadw'r boblogaeth iau.

Mae targed uchelgeisiol, ond cyflawnadwy, i ddarparu 1,800 (120 y flwyddyn) o dai fforddiadwy wedi'i gynllunio hyd at 2033. Pennwyd y targed hwn ar ôl cynnal asesiad o'r angen am dai fforddiadwy yn y gymuned, a llunio Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy. Mae Asesiad Marchnad Dai Leol Conwy yn awgrymu y dylai darpariaeth tai fforddiadwy ar-safle gynnwys 50% o gartrefi cymdeithasol a 50% o gartrefi perchentyaeth cost isel. Bydd elfen o hyblygrwydd yn cael ei chymhwyso i'r gymysgedd hon, ar sail nodweddion lleol a newidiol aneddiadau.

Gallai darparu cynlluniau perchnogaeth fod yn gadarnhaol i siaradwyr Cymraeg yn yr ardal sy'n dymuno byw'n lleol ond na allant fforddio gwneud hynny ar hyn o bryd. Gallai hyn effeithio'n gadarnhaol ar y Gymraeg, os gall y broses gynllunio sicrhau bod modd targedu Tai fforddiadwy a chynlluniau perchnogaeth at bobl leol/siaradwyr Cymraeg.

Wrth symud y Strategaeth a Ffefrir ymlaen, gall y fwrdeistref sirol ystyried TAN 6 a defnyddio cyfraniadau tai fforddiadwy i gynnal mentrau rhagweithiol mewn ardaloedd ieithyddol sensitif trefol a gwledig er mwyn cefnogi pobl leol yn eu cymunedau lleol.

Cyflenwi seilwaith

13. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol?	
Bygythiad/sicrwydd i ysgolion lleol wrth i gofrestrau disgyblion ostwng/cynyddu.	Newid y cydbwysedd rhwng disgyblion sy'n siarad Cymraeg a disgyblion sy'n siarad Saesneg?

Mae tir wedi'i neilltuo yn y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer safleoedd ysgol newydd yn y lleoliadau a ganlyn:

- Llanfairfechan

- ii. Llanrhos
- iii. Abergele

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yng Nghonwy yn cynnwys ymrwymiad clir i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac i holl ddisgyblion y sir fod yn rhugl yn Gymraeg. Mae'r Cynllun yn nodi:

"Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy weledigaeth i sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn rhugl a bod ganddyn nhw'r sgiliau iaith i fod yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydyn ni am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael pob cyfle i ddod yn aelodau llawn o'r gymuned ddwyieithog y maent yn byw ynddi, fel eu bod yn gallu defnyddio'r iaith gyda'u teulu, yn y gymuned ac yn y gwaith. Fel Awdurdod, rydym wedi ymrwymo i ddyhead Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn yn cyfrannu at y weledigaeth hon drwy gynyddu'r nifer sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg a hefyd drwy annog plant a phobl ifanc i ymfalchïo yn y Gymraeg, ac yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru."

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys 55 o ysgolion cynradd, 7 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig. Oherwydd natur ieithyddol amrywiol y sir, ynghyd â'r amrywiaeth yn yr ardaloedd lle ceir galw am addysg cyfrwng Cymraeg, mae gan Conwy ysgolion ym mhob un o'r 5 categori iaith. Dyma'r ysgolion sy'n bodloni'r diffiniad o ysgolion categori 1: Bod Alaw Glan Morfa Morfa Rhianedd Betws y Coed Betws yn Rhos Bro Aled Bro Cernyw Bro Gwydir Capel Garmon Cerrigydrudion • Dolgarrog Dolwyddelan Eglwysbach Llanddoged Llangelynnin Llanefydd Penmachno Pentrefoelas Tal y Bont • Ysbyty Ifan

Yn ôl y Strategaeth Cymraeg mewn Addysg, mae'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn tyfu yn ardal Abergele / Bae Cinmel, a bydd Cyngor Conwy yn ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Abergele. Bydd angen i'r safle ysgol a gynlluniwyd yn y Strategaeth a Ffeirir ar gyfer ardal Abergele felly gyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod.

Nodir yn y CSCA hefyd y bydd yr ysgol yn Llanfairfechan yn cael ei symud o gategori 4 i gategori 3 - gan gynyddu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd angen i'r cynigion am ysgol newydd yn Llanfairfechan yn y Strategaeth a Ffeirir adlewyrchu hyn.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddyletswydd statudol o dan adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i ddarparu trafndiaeth i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gan hynny, wrth ddatblygu safleoedd ar gyfer ysgolion newydd yn y Strategaeth a Ffefrir, gellid bod angen ystyried yr effaith ar ddarpariaeth teithio.

Ar raddfa ehangach, gall y CSCA a'r CDLIN gydweithio i, er enghraifft:

- annog y rhai sy'n symud i'r ardal i ddysgu Cymraeg;
- hyrwyddo addysg gyfrwng Cymru ymhlith rhieni; a
- darparu canolfan drochi Cymraeg i'w mynychu gan blant oed cynradd er mwyn iddynt ddysgu Cymraeg.

14. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd?	
Bygwth/diogelu cyfleusterau/ gwasanaethau lleol cyfrwng Cymraeg?	

Oherwydd y twf mewn poblogaeth a ddisgwylir dros oes y CDLIN, ynghyd â'r boblogaeth sy'n heneiddio, mae'n debygol y ceir galw cynyddol o fewn darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn cydnabod bod poblogaeth Conwy yn heneiddio, a'i bod hi felly'n debygol y bydd mwy o alw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Nid yw'r Strategaeth a Ffefrir yn crybwyll gwasanaethau Cymraeg, felly yn y dyfodol mae'n bwysig cynnwys yr ystyriaethau hyn er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn cynllunio ac felly'n sicrhau mynediad cyfartal i bawb at wasanaethau yng Nghonwy, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

15. A yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol, fel siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai?	
Bygwth/diogelu siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan orfodi rhai rhannau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal / gymuned ee, yr henoed neu bobl anabl, neu bobl ifanc?	

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys datblygiad adwerthu yn rhan ddwyreiniol arfordir Abergele. Mae effaith y datblygiad hwn wedi'i hasesu a'i thrafod o dan bennawd 8 uchod.

Yn ogystal â hynny, mae rhandiroedd wedi'u cynnig yn yr ardaloedd a ganlyn:

- i. Llanfairfechan
- ii. Llanrhos
- iii. Hen Golwyn
- iv. Llanrwst
- v. Abergele

Mae pedair o'r pump o ardaloedd hyn yn ardaloedd ieithyddol bwysig i'r sir, ac felly dylai'r cynnig hwn wella cyfleusterau yn yr ardaloedd hynny. Ceir cyfleoedd drwy'r broses gynllunio i annog y defnydd o'r Gymraeg ar randiroedd, gan gynnwys defnydd gan grwpiau cymunedol Cymraeg eu hiaith, ysgolion cyfrwng Cymraeg ac oedolion sy'n dysgu Cymraeg.

Agweddau cymdeithasol a diwylliannol

16. A allai'r strategaeth arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu ymraniadau difrifol o fewn y gymuned Cymraeg ei hiaith?	
Cael effaith anghyson iawn ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gan roi mantais o bosib i rai grwpiau a rhoi grwpiau eraill o dan anfantais?	Sathru ar werthoedd traddodiadol rhai rhannau o'r gymuned?

Mae tir wedi'i neilltuo yn y Strategaeth a Ffefrir i fodloni'r angen ychwanegol am fannau hamdden. Mae'r rhain ar y Safleoedd Strategol yn Llanfairfechan, Llanrhos, Hen Golwyn, Abergele a Llanrwst. Mae mwy o gyfleoedd hamdden yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned. Byddai cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y mannau newydd hyn yn ei gwneud hi'n fwy tebygol bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith fyw ac yn iaith byw yn yr ardal.

17. A allai'r strategaeth arwain at newid mewn traddodiadau / diwylliannau Cymreig lleol?	
Achosi i deuluoedd lleol Cymraeg eu hiaith symud i ffwrdd o'r ardal?	Achosi cynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd sy'n cynnwys pobl ddi-Gymraeg nad ydynt yn lleol?
Achosi i gysylltiadau teuluol neu rwydweithiau cymdeithasol eraill erydu?	Arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth ffyrdd traddodiadol o fyw?
Effeithio ar aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith drwy gyflwyno / gyflymu newid cymdeithasol?	

Ar y cyfan, ni chanfu'r asesiad lefel uchel hwn o'r effaith ar y Gymraeg unrhyw effeithiau andwyol posibl ar y Gymraeg, nac ar ddiwylliant na thraddodiadau Cymru. Yn ardal Llanrwst, fodd bynnag, lle cynigir datblygiad yn y Strategaeth a Ffefrir, mae'n bwysig nodi'r effeithiau'n llawn mewn penderfyniadau cynllunio a gweithredu camau i'w lliniaru yn y dyfodol.

Mae ardal awdurdod cynllunio lleol Conwy yn cynnwys 162 o Henebion Rhestredig, 1735 o Adeiladau Rhestredig y mae 29 wedi'u rhestru'n Radd I, 1,610 yn Radd 2 a 96 yn Radd 2*, a 24 o Ardaloedd Cadwraeth. Mae Castell Conwy wedi'i ddynodi'n Safle Treftadaeth y Byd. Mae UNESCO o'r farn mai Castell Conwy yw "un o'r enghreifftiau gwychaf o bensaernïaeth filwrol o ddiwedd y 13eg ganrif a dechrau'r 14eg ganrif yn Ewrop."

Mae henebion rhestredig yn safleoedd archeolegol o bwys cenedlaethol sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979, ac mae 155 ohonynt yn ardal gynllunio Conwy.

Mae papur yn dwyn y teitl 'Heritage Counts' a gyhoeddwyd gan y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn mesur effaith a dylanwad y sector treftadaeth yng Nghymru. Amcangyfrifir bod y sector treftadaeth yn cynhyrchu cyfanswm o £963m i economi Cymru bob blwyddyn ac yn cynnal dros 40,500 o swyddi. Yn ogystal â hynny, caiff llawer o bobl yng Nghymru eu cyflogi mewn swyddi a gysylltir yn anuniongyrchol â'r sector treftadaeth - er enghraifft, y bobl niferus sy'n gweithio mewn

gwestai a bwytaï sy'n cynnig darpariaeth i ymwelwyr â Chymru sy'n ymweld i fwynhau treftadaeth y wlad yn bennaf. Mae'r papur hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod 43% o swyddi'r diwydiant adeiladu yng Nghymru (26,340 o bobl) ym maes atgyweiriadau cadwriaethol a chynnal adeiladau traddodiadol a godwyd cyn 1919. Mae Heritage Counts yn pennu gwerth mesuradwy i dreftadaeth ac yn dangos pa mor werthfawr yw'r amgylchedd hanesyddol i'r economi ac i'r sector twristiaeth ac addysg.

Nodir yn y Strategaeth a Ffeirir y bydd yn cefnogi trefniadau i warchod a gwella'r holl asedau treftadaeth sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol, ac yn ystyried effaith datblygiad yn yr ardal o'u hamgylch. Fodd bynnag, er bod Polisi Strategol 21 a 22 yn cynnwys ymrwymïadau yn gysylltiedig â hyn, ni chyfeirir o gwbl at y Gymraeg fel rhan o wead ein treftadaeth a'n diwylliant. Yn Atodiad 2 y ddogfen hon, awgrymir lle y gellid ymwreiddio'r Gymraeg yn yr adrannau hyn.

18. A yw'r strategaeth yn degol o gael effaith bosibl ar grwpiau gwirfoddol / gweithgaredd / ieuenctid lleol?	
Gorfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud allan o'r gymuned, oherwydd:	
Ysgogi cynnydd mewn diweithdra/straen economaidd?	Ysgogi cynnydd mewn prisiau tai/straen yn gysylltiedig â thai?

Ni chanfuwyd unrhyw gyfleoedd uniongyrchol i siaradwyr Cymraeg wirfoddoli yn yr asesiad effaith hwn.

Atodiad 2 - Asesiadau effaith y Meysydd Polisi Strategol â Blaenoriaeth yn y Strategaeth a Ffefrir ar y Gymraeg

Nodau'r Strategaeth a Ffefrir	Materion â blaenoriaeth - yn ymwneud â'r Gymraeg	Sylwadau o'r asesiad effaith
Nodau Creu Lleoedd Cynaliadwy		
Amcan Strategol 1 yw cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a gwell llesiant yn gyffredinol yng Nghonwy drwy greu lleoedd cynhwysol ac adfywio sydd yn sicrhau bod lefelau twf i'r dyfodol a datblygu yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sydd yn ceisio hyrwyddo dylunio da a lleoedd iachach, yn gwarchod y Gymraeg ac sydd yn cael eu cefnogi gan seilwaith cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol er mwyn creu lleoedd gwych Mae'r Gymraeg wedi'i henwi'n nod strategol yn yr amcan hwn.		
Mae Strategaeth y Gymraeg CBSC yn ymrwymo'r Cyngor i drin y Gymraeg a Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus. Mae CBSC hefyd wedi ymrwymo i helpu i godi proffil y Gymraeg a diwylliant Cymru ymhlith preswylwyr a gweithwyr. Mae angen gwarchod y Gymraeg a chefnogi defnydd cynyddol ohoni ymhlith y boblogaeth sy'n preswyllo yn ardal CBSC.	Dylai'r CDLIN gydnabod gwerth yr iaith a chynnwys darpariaethau polisi i gefnogi twf yn y defnydd o'r Gymraeg. Gall graddfa a lleoliad datblygu tai, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol oll effeithio ar y Gymraeg.	Mae'r ymrwymïadau hyn yn arwydd bod y Gymraeg wedi'i hymwreiddio yn y broses gynllunio a bod Conwy yn anelu i ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau cynllunio.
Mae angen sicrhau bod CDLIN Conwy yn hwyluso lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a llesiant i bawb.	Dylid lleoli lefelau twf a datblygiadau yn y dyfodol mewn mannau cynaliadwy a hygyrch. Dylai'r twf a'r datblygiadau hefyd geisio hyrwyddo dylunio da a lleoedd iachach, gwarchod y Gymraeg a chael y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol er mwyn creu lleoedd gwych.	Wrth sicrhau twf cymesur a chynaliadwy, dylid hefyd cydbwysu ystyriaethau, gan gynnwys y Gymraeg, mewn penderfyniadau cynllunio. Yn gyffredinol, mae angen i'r SaFf gyfrannu at a chefnogi'r awdurdod i gyrraedd ei darged o gynyddu siaradwyr Cymraeg o 27.4% i 29.4% - mae hyn yn golygu atal y dirywiad, gwarchod y Gymraeg ond, yn ogystal â hynny, ymroi'n weithredol i hyrwyddo a chefnogi ei thwf, fel bod yr iaith yn ffynnu ac yn iaith fyw, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg.

Mae rhai rhannau o'r sir, yn enwedig yn y trefi ar arfordir y gogledd, ymhlith ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru, gyda lefelau isel o weithgarwch economaidd a mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, yn enwedig ymhlith y boblogaeth o blant a phobl ifanc, a phobl oedrannus.	Mae angen lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, gan gynnwys drwy wella mynediad at gyfleusterau cymunedol. Mae angen sicrhau bod cymunedau'n agos at gyfleusterau cymunedol, gwasanaethau cyhoeddus ac amwynderau allweddol sy'n bodoli eisoes.	Llandudno, Conwy ac Abergel yw'r tri sydd ar y brig o ran niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn y sir. Gallai'r amcan strategol anelu i gynyddu cyfleusterau ac amwynderau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ardaloedd amddifadus yng Nghonwy.
I wella ansawdd dylunio	Er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy yn y CDLIN, mae'n rhaid mynd y tu hwnt i estheteg wrth ddylunio, a chynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae angen i'r CDLIN hyrwyddo pensaernïaeth a dyluniadau o ansawdd uchel sy'n cryfhau natur unigryw'r ardal leol, ac yn meithrin ymdeimlad o le.	Ceir potensial i gael effaith gadarnhaol ar yr ymdeimlad o le unigryw drwy ddathlu'r Gymraeg mewn dyluniadau.
Mae cadw pobl ifanc yn ein hardal yn fater o bwys mawr, gan fod amcangyfrifon poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yn dangos bwlch mawr yn y strwythur oedran rhwng tua 18 a 40. Dyma'r grŵp oedran sydd yn fwyaf tebygol o fod yn symudol o safbwynt economaidd a chymdeithasol, gan geisio gwaith, addysg a chyfleoedd cymdeithasol eraill y tu allan i'r ardal.	Dyma lle mae'r gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg wedi'u lleoli, er eu bod yn gostwng. 27.2% o'r boblogaeth 65 oed a throsodd, sydd yn rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol.	Mae angen i'r Cynllun ystyried sut y mae'n darparu gwasanaethau yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg rhwng 18 a 40, a sut mae'n eu cefnogi i fyw a gweithio yn yr ardal am y tymor hwy. Mae angen i'r Cynllun ystyried sut y bydd yn cefnogi gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r boblogaeth sy'n heneiddio, ac sydd ar gynydd.
Creu lleoedd cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig: Gan mai ardal wledig yw Conwy yn bennaf, mae ei chefn gwlad yn anodd deinamig ac amlbwrpas. Mae'n rhaid gwarchod yr ardal honno a, lle bo modd, ei gwella er budd ei gwerth	Mae angen i'r CDLIN daro cydbwysedd rhwng gwarchod y priodoleddau hyn ac anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau ac ymwelwyr lleol. Mewn ardaloedd gwledig, dylid lleoli'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd mewn	Mae PCC hefyd yn trafod Lleoedd Unigryw. Pan fydd y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed yn rhywle, bydd hynny'n creu ymdeimlad unigryw o le. Pan fo'r Gymraeg yn weithredol ac yn fywiog bydd hynny yn ei dro yn sicrhau iechyd a bywiogrwydd

ecolegol, daearegol, ffisiograffig, hanesyddol, archaeolegol, diwylliannol a phensaernïol, ac er budd ei thirwedd a'i hadnoddau naturiol.	aneddiadau sydd yn gymharol hygrych drwy ddulliau teithio eraill ar wahân i gar, o'u cymharu â'r ardal wledig yn ei chyfanrwydd. Bydd angen i'r CDLIN ystyried y materion hyn wrth ddatblygu'r Weledigaeth, yr Amcanion a'r Strategaeth Twf.	y gymuned hefyd. Mae PCC yn crybwyll Lleoedd Strategol - ac mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn y disgrifiad hwn - fel blaenoriaeth sy'n bwysig yn genedlaethol. "Bydd Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu yn golygu adeiladu ar y nodweddion unigryw ac arbennig sy'n rhoi 'teimlad' a hunaniaeth unigryw i leoedd. Meithrin a chynnal ymdeimlad o le drwy amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeileidig a darparu ar gyfer a chefnogi defnyddiau a gweithgareddau sy'n darparu ar gyfer profiadau creadigol a diwylliannol" (PCC, 2018). Mae gwerth cynhenid lle i bobl a'u cymunedau yn arbennig o bwysig, ac yn gysylltiedig â ffactorau sy'n cynnwys iaith, diwylliant, hanes, treftadaeth a hunaniaeth. Mae'r ymdeimlad o le a'r berthynas rhwng pobl a lleoedd yn bwysig. Mae'r ymdeimlad o le yn gysylltiedig â'r ymdeimlad o berthyn ac ymdeimlad o hunaniaeth, a phan fydd y rhain yn gadarn ac yn gynaliadwy, byddant yn cefnogi iechyd a lles pobl. Mae'r Gymraeg yn rhan o'r gwedd cymdeithasol a diwylliannol a bydd ei lles yn y dyfodol yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau a lleoedd cynaliadwy sy'n ffynnu. Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg, ac wrth wneud hynny, cyfrannu at y defnydd
--	---	--

		o'r iaith ac at gyrraedd y nod llesiant 'Cymraeg sy'n ffynnu'.
Ceir diffyg capasiti ar dir a ddatblygwyd o'r blaen i gynnwys twf dros Oes y Cynllun, ac mae hynny'n rhoi pwysau ar yr angen am dir maes glas. Cyfyngir yn fawr hefyd ar rai aneddiadau ar hyd y llain arfordirol, sy'n deillio'n bennaf o dopograffi i gyfeiriad y de, risg llifogydd i'r gogledd a chapasiti priffyrdd. Mae hynny'n amharu ar allu'r cymunedau hynny i hyrwyddo twf, adfywio a chreu lleoedd cynaliadwy.	Mae angen i'r CDLIN sicrhau bod lefelau twf a datblygiad yn y dyfodol yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, a'u bod yn gwarchod y Gymraeg.	Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n rhaid i'r awdurdod geisio hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, ceisio cynyddu'r defnydd o'r iaith a rheoli neu liniaru effeithiau andwyol ar y Gymraeg.
Nodir bod disgwyl cynnydd o oddeutu 5.6% i boblogaeth Conwy, ac mai mudo fydd y prif ffactor i ysgogi'r newid hwn		Gallai cynnydd o 5.6% o bobl ddi-Gymraeg yng Nghonwy gael effaith negyddol ar y ffigur sy'n siarad Cymraeg ymhlith y boblogaeth, sef 27.4%. Byddai hyn yn amharu ar allu'r awdurdod i sicrhau twf o 2%, a nodwyd fel targed yn ei Strategaeth ar gyfer y Gymraeg.
Cyfleusterau yn y gymuned: Mae mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn broblem neilltuol, gyda 9 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is gyda'r 10% o safleoedd mwyaf amddifadus yn genedlaethol o ran mynediad at wasanaethau.	Dylai'r CDLIN nodi darpariaeth ddigonol ar gyfer seilwaith yn y gymuned i fodloni anghenion poblogaeth y presennol a'i hanghenion ar gyfer y dyfodol.	Yn ôl TAN 6, er mwyn sicrhau bod cymunedau'n gynaliadwy yn y tymor hir, mae angen i breswylwyr mewn ardaloedd gwledig gael mynediad rhesymol at wasanaethau lleol hanfodol. Wrth greu cynlluniau datblygu, dylai awdurdodau cynllunio gasglu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael ar draws yr ardal. Mae hyn yn berthnasol i'r un graddau i siaradwyr Cymraeg a'r cyfleusterau y mae arnynt eu hangen drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cymunedau hyfyw a chynaliadwy yn allweddol i PCC. Mae'n nodi y dylai cynigion datblygu greu amodau

		sy'n dod â phobl ynghyd, gan wneud iddynt fod eisiau byw, gweithio a hamddena mewn ardaloedd a chanddynt ymdeimlad o le a llesiant, gan greu ffyniant i bawb. Mae hyn yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg a'u cymunedau - ac felly mae angen i'r penderfyniadau cynllunio a wneir gan yr awdurdod lleol hyrwyddo a hwyluso hynny. Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at yr ymdeimlad o le sy'n bwysig er mwyn sicrhau iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol, ac mae eu presenoldeb yn aml yn elfen allweddol er mwyn creu lleoedd hyfyw a chynaliadwy. Gallant gynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd a mannau addoli. Caiff cymunedau cydlynus Cymraeg eu hiaith eu cynnal a'u creu drwy ddarparu lleoedd i bobl ryngweithio a chynnal gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys mannau hamdden, chwarae a dysgu a chyfleoedd i gysylltu â natur.
Capasiti ysgolion: Mae rhai ysgolion yn llawn, neu gallent fod yn llawn, yn dibynnu ar y cynnydd mewn cartrefi newydd ac yn y boblogaeth yn y dyfodol.	Dylai'r CDLIN nodi darpariaeth ddigonol ar gyfer seilwaith yn y gymuned i fodloni anghenion poblogaeth y presennol a'i hanghenion ar gyfer y dyfodol.	yn ôl y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Abergele a Bae Cinmel yn tyfu, ac nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y Cynllun eto.
Lleoedd ffyniannus		
Datblygu economaidd: Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy yn rhagweld y bydd y gweithlu llafur yng Nghonwy, sef nifer y bobl economaidd weithgar o oed gwaith, yn cynyddu erbyn 2033. Ar sail hynny gellid bod angen rhwng	Dylai'r CDLIN gyfeirio datblygiad economaidd a buddsoddiad tuag at y lleoliadau mwyaf effeithlon a chynaliadwy.	Ceir cyfleoedd i annog siaradwyr Cymraeg i aros yng Nghonwy i fyw a gweithio. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y byddai'r awdurdod yn cyrraedd ei darged i sicrhau bod 29% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg

12.46 a 13.33 hectar o dir busnes (gros) dros oes y CDLIN. Mae angen sicrhau bod safleoedd cyflogaeth lleol wedi'u diogelu a bod dyraniadau'n cael eu cyflwyno i gefnogi cyflogaeth mewn cymunedau. · Ceir all-lif net o 4,784 o breswylwyr sy'n cymudo allan o Gonwy i weithio mewn ardaloedd eraill. Ceir cymhareb dwysedd swyddi is yng Nghonwy o 0.72 o gymharu â chyfartaledd Cymru o 0.74 a'r gymhareb mewn awdurdodau cyfagos (0.78 yn Sir Ddinbych a 0.85 yng Ngwynedd). Gallai taro cydbwysedd o'r newydd yn y Sir er mwyn sicrhau bod mwy o swyddi (a swyddi o ansawdd uwch) yn cael eu darparu fod o gymorth i wrthweithio'r duedd hon a thynnu cymudwyr yn ôl i'r ardal, gan leihau'r cyfraddau allgymudo net.		o fewn 5 mlynedd, fel y nodir yn ei strategaeth ar gyfer y Gymraeg.
Twristiaeth: Mae twristiaeth yn fwyfwy pwysig i economi Conwy. Yn fwy diweddar, bu twf mewn busnes twristiaeth awyr agored ac antur cynaliadwy trwy'r flwyddyn. Gwelwyd galw am wahanol fathau o lety i ymwelwyr yng Nghonwy sydd yn wahanol i'r llety traddodiadol. Bydd angen i ddatblygiadau twristiaeth mewn ardaloedd fod sensitif i'r amgylchedd lleol, o ran natur a graddfa. Ceir llawer o safleoedd llety carafán traddodiadol yng Nghonwy, y mae llawer ohonynt oddi mewn i'r ardal risg llifogydd yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol.	Polisi Strategol 28: Gall y sir ymfalchio mewn ystod eang o weithgareddau, cyfleusterau a mathau o ddatblygiad, ac mae'n hanfodol er mwyn i'r economi ffynnu ac er mwyn creu swyddi yn sawl rhan o Gonwy. Gall twristiaeth fod yn gatalydd i adfywio, i wella'r amgylchedd adeiledig a diogelu'r amgylchedd. Mae'r Strategaeth a Ffeirir felly'n annog datblygiadau twristiaeth lle bo hynny'n cyfrannu at ddatblygiad economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant cymdeithasol, gan gydnabod anghenion ymwelwyr ac anghenion cymunedau lleol. Yn fwy diweddar, gwelwyd twf mewn busnes twristiaeth awyr	1. Mae twristiaeth yn bwysig i'r economi ac yn cyflogir cyfran sylweddol o boblogaeth Conwy. Nid yw'r Cynllun ar hyn o bryd yn ystyried sut y gallai'r Gymraeg gynyddu eto' ymdeimlad o le unigryw yn rhan o'r polisi creu lleoedd. 2. Mae ystod fwy amrywiol o swyddi yn ogystal â swyddi parhaol yn debygol o fod yn fuddiol i siaradwyr Cymraeg, ac i holl boblogaeth Conwy.

	agored ac antur cynaliadwy drwy'r flwyddyn gron, gan greu mwy o alw am amrywiaeth o lety gwyliau. Twristiaeth ddiwylliannol - mae gan Gonwy gyfoeth o dreftadaeth ddiwylliannol amrywiol, gan gynnwys enghreifftiau fel Castell Conwy sy'n Safle Treftadaeth y Byd, ac yn rhan annatod o Brosiect Cymru Gyfan fel ased pwysig am resymau hanesyddol, economaidd a chymdeithasol.	
Yr Economi Wledig: Mae economi wledig gref yn hanfodol i gynnal cymunedau gwledig sy'n hyfyw a chynaliadwy. Mae aneddiadau gwledig Conwy yn gartref i oddeutu 15% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol. Bydd Brexit yn effeithio ar gymunedau gwledig.	Amcan Strategol 9 - Hyrwyddo a chefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a hyfyw drwy sefydlu mentrau newydd, ehangu busnes presennol a mabwysiadu ymagwedd adeiladol at amaethyddiaeth ac arferion ffermio newidiol. Bydd angen i'r CDLIN fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol at brosiectau arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig. Er y dylid gwarchod ardaloedd o gefn gwlad agored lle bynnag y bo modd, dylid cefnogi cynlluniau i ehangu busnesau presennol sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd hynny yn y CDLIN ar yr amod na cheir unrhyw effeithiau annerbyniol.	Yn Nodyn Cyngor Technegol 6, nodir y dylai awdurdodau cynllunio gefnogi arallgyfeirio'r economi wledig fel ffordd o gynnig cyfleoedd cyflogaeth lleol, cynyddu ffyniant economaidd lleol a lleihau cymaint ag sy'n bosibl yr angen i deithio er mwyn cael swydd. Byddai camau o'r fath hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg hefyd fwy na thebyg.
Seilwaith trafnidiaeth: Ceir gwasanaeth bws da ar y cyfan ar hyd y llain arfordirol, ond gellid bod angen gwasanaethau ychwanegol mewn rhai ardaloedd er mwyn		Os yw'r drafnidiaeth gyhoeddus yn brin, gall hynny gael effaith andwyol ar gyfleoedd am gyflogaeth a lles cymdeithasol. Mewn ardaloedd gwledig sy'n porthi Llanrwst, mae angen cefnogi ac annog mynediad

darparu ar gyfer twf. Mae gan yr ardal wledig wasanaeth da i Lanrwst, ond cyfyngir ar wasanaethau i gynnal yr aneddiadau gwledig ehangach ar ôl hynny.		gwell at wasanaethau i'r ardaloedd a'r cymunedau gwledig oddi amgylch er mwyn cefnogi ardaloedd ieithyddol sensitif cynaliadwy a Chymraeg sy'n ffynnu.
Cyfathrebu: Ceir diffyg darpariaeth delathrebu symudol a diffyg mynediad at fand eang ar linell sefydlog mewn rhai ardaloedd yng Nghonwy.	Dylai'r CDLIN geisio cefnogi cynigion am seilwaith band eang newydd neu welliannau i rwydweithiau neu gyfarpar presennol. Dylai'r polisi hefyd sicrhau bod seilwaith band eang yn ofyniad hanfodol mewn cynigion datblygu newydd.	Gallai'r cynllun hefyd sicrhau bod gan ardaloedd ieithyddol sensitif y seilwaith sydd ei angen - yn unol â TAN 20 a TAN 6 i sicrhau bod anghenion rhesymol siaradwyr Cymraeg wedi'u bodloni.
	Mae Polisi Strategol 12 yn rhestru'r mesurau lliniaru sydd eu hangen, ac mae un pwynt bwled yn y rhestr yn cynnwys y Gymraeg	Ceir lle i ddatblygu'r adran hon ymhellach gan nad yw'r pwynt bwled yn rhoi esboniad clir o'r mesurau lliniaru a fwriedir yn gysylltiedig â hynny. Ceir rhestr fwy cynhwysfawr y gellid cyfeirio ati yn TAN 20. Ceir potensial hefyd i gysylltu'r pwyntiau bwled amrywiol â'i gilydd, hy gellir cyfuno adfywio economaidd, seilwaith, trafnidiaeth, cyfathrebu, grantiau, addysg a hyfforddiant, mentrau cymunedol ac ati yn effeithiol i gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a hyrwyddo cymunedau Cymraeg eu hiaith sy'n gynaliadwy.
Lleoedd Naturiol a Diwylliannol		
Y Dirwedd: Mae tirweddau Conwy yn gyfoethog ac amrywiol. Mae Conwy yn dynodi 6 Ardal Tirwedd Arbennig ar raddfa leol. · Parc Cenedlaethol Eryri. Cafodd Parc Cenedlaethol Eryri ei ddynodi'n Barc Cenedlaethol yn 1951. Dyma'r parc mwyaf a'r parc cyntaf i	Bydd angen i'r CDLIN ystyried tirweddau o'r cychwyn cyntaf wrth lunio strategaethau a pholisïau. Bydd angen i'r CDLIN warchod a gwella'r asedau naturiol sydd o ansawdd uchel yng Nghonwy.	Yn PCC, un o'r Canlyniadau Creu Lleoedd yw - Creu a Chynnal Cymunedau: Yn galluogi'r Gymraeg i ffynnu. Mae'r Gymraeg yn rhan o'r gwedd cymdeithasol a diwylliannol a bydd ei lles yn y dyfodol yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig,

cael ei ddynodi yng Nghymru. Mae'n cynnwys arwynebedd o 213,200 hectar. Mae Parc Cenedlaethol Cymru yn cynnwys rhannau o Wynedd a rhannau o ardal CBSC, gan gynnwys aneddiadau a rennir.		gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau a lleoedd cynaliadwy sy'n ffynnu. Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg, ac wrth wneud hynny, cyfrannu at y defnydd o'r iaith ac at gyrraedd y nod llesiant 'Cymraeg sy'n ffynnu'. Mae PCC hefyd yn trafod Lleoedd Unigryw. Pan fydd y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed yn rhywle, bydd hynny'n creu ymdeimlad unigryw o le. Pan fo'r Gymraeg yn weithredol ac yn fywiog bydd hynny yn ei dro yn sicrhau bod y gymuned hithau yn weithredol. Mae PCC hefyd yn trafod Lleoedd Strategol - ac mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn y disgrifiad hwn - fel blaenoriaeth genedlaethol bwysig. "Bydd Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu yn golygu adeiladu ar y nodweddion unigryw ac arbennig sy'n rhoi 'teimlad' a hunaniaeth unigryw i leoedd. Meithrin a chynnal ymdeimlad o le drwy amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig a darparu ar gyfer a chefnogi defnyddiau a gweithgareddau sy'n darparu ar gyfer profiadau creadigol a diwylliannol" (PCC, 2018).
Yr amgylchedd hanesyddol / Treftadaeth ddiwylliannol: Mae Castell Conwy wedi'i ddynodi'n Safle Treftadaeth y Byd. Mae UNESCO o'r farn mai Castell Conwy yw "un o'r enghreifftiau gwyachaf o	Amcan Strategol 12 - Gwarchod a gwella'r asedau treftadaeth naturiol a diwylliannol o ansawdd uchel yng Nghonwy.	Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud hi'n ddyletswydd i'r awdurdod sicrhau diwylliant a Chymraeg sy'n ffynnu. Gellir cysylltu'r Gymraeg yn agos â

bensaernïaeth filwrol o ddiwedd y 13eg ganrif a dechrau'r 14eg ganrif yn Ewrop". Mae ardal CBSC yn cynnwys 162 o Henebion Rhestredig, 1735 o Adeiladau Rhestredig y mae 29 wedi'u rhestru'n Radd I, 1,610 yn Radd 2 a 96 yn Radd 2*, a 24 o Ardaloedd Cadwraeth. Mae'n rhaid i'r CDLIN gefnogi cynlluniau i warchod a gwella'r holl asedau treftadaeth a ddynodwyd yn genedlaethol, gan gynnwys yr hyn sydd o'u hamgylch.		diwylliant. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a fwriedir i'r adran hon warchod asedau diwylliannol a threftadol yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Ni chrybwyllir y Gymraeg o gwbl ar hyn o bryd yn Mholisi Strategol 21 - Yr Amgylchedd Hanesyddol nac ym Mholisi Strategol 22 (SP/22):
Adfywio dan arweiniad diwylliannol: Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd cadw nodweddion unigryw ac arbennig sy'n rhoi ymdeimlad o hunaniaeth a naws unigryw i le. Mae nifer o fentrau a phrosiectau adfywio ar y gweill ar hyn o bryd ac wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol agos ar draws y fwrdeistref sirol. Bydd y rhain yn cael effaith gadarnhaol o ran gwella a chadw asedau diwylliannol Conwy.		Nid yw'r geiriad yn cyfleu'n glir a yw agweddau'r Gymraeg a chyfrwng Cymraeg wedi'u hystyried yn rhan o'r flaenoriaeth hon. Ceir cyfleoedd i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg drwy fentrau, gweithgareddau, grantiau a grwpiau a arweinir gan ddiwylliant. Gellid ystyried ymgysylltu â Menter Conwy a grwpiau Cymraeg eraill.

Atodiad 3 - Rhestr o Gyfeiriadau a Gwybodaeth Bellach

Llyfryddiaeth

- Aitchison, J. and Carter, H. (1998) 'The Regeneration of the Welsh Language: An analysis' An Annual Review of Economic and Social Research Contemporary Wales Vol 11, pp 167-185
- Baker, C, Sylvia Prys Jones, et al. (1998) The Encyclopaedia of bilingualism and bilingual education. Multilingual Matters.
- Bernstein, B. (1973) Social Class, Language and Socialisation. No. 28 in Current Trends in Linguistics Vol 12 pp 472-486
- Cardiff University (2005) Capitalising on languages and culture: scoping study. Language-culture-economy
- Carter, H. and Aitchinson, J. W. (1997) 'The language patterns of Wales' in Griffiths, M. (1997) (Gol) Y Gymraeg mewn Addysg Cyfrol o ysgrifau wedi'u golygu gan Merfyn Griffiths Cyfrol 2 WJEC / CBAC: Uned Iaith Genedlaethol Cymru tt 15-25
- Uned Ymchwil Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awst 2013), Y Gymraeg yng Nghonwy, Bwletin Ymchwil,
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, (Gorffennaf 2019) Strategaeth a Ffefrir Conwy 2018-33
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Gwasanaethau Addysg Conwy, (2017) Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Strategaeth y Gymraeg yng Nghonwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Safonau Cymraeg Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cynllun Llesiant
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Mai 2019), BP07: Cyflenwad Tir ar gyfer Tai - Asesiad ar gyfer CDLIN
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awst 2018), Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) www.conwy.gov.uk/catt
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Y Cynllun Datblygu Lleol a'r Asesiad o Effaith ar y Gymraeg.

Coupland, N., Williams, A. and Garrett, P. (1994) 'The Social Meanings of Welsh English: Teachers' stereotyped judgements' Journal of Multilingual and Multicultural Development 15 (6) pp471-489

Coupland, N., Williams, A. and Garrett, A. (1998) "Welshness' and 'Englishness' as Attitudinal Dimensions of English Language Varieties in Wales" in Preston, D. (Ed) Handbook of Perceptual Dialectology Sage: Newbury Park.

Deddf y Goron, Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) Adran 62

Etzioni, A. (1996) 'The Responsive Community: A Communitarian Perspective' 1995 Presidential Address Sociology 61 (1) February, pp1-11

Archifau Cenedlaethol - legislation.gov.uk - Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 - <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh>

Archifau Cenedlaethol - legislation.gov.uk - Deddf yr Amgylchedd 2016 - <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted/welsh>

Bwletin Ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Rhag 2012) - Cyfrifiad 2011: Y Canfyddiadau Cyntaf ar y Gymraeg

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 (2018) <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

Llywodraeth Cymru, (2017) TAN 20 Canllawiau ar Gynllunio a'r Gymraeg,

Llywodraeth Cymru, (2010) TAN 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Gorffennaf 2010 <https://gwedddill.gov.wales/docs/desh/policy/100722tan6cy.pdf>

Deddf	Llesiant	Cenedlaethau'r	Dyfodol
-------	----------	----------------	---------

2015 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/pdfs/anaw_20150002_we.pdf

Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

Llywodraeth Cymru, Bwletin StatsCymru - Y Gymraeg, Cyfrifiad 2011

Am ragor o wybodaeth am y Gymraeg gan gynnwys grwpiau a mentrau yng Nghonwy:

Cyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned:

<https://dysgucymraeg.cymru/>

Mesur Cymraeg Cymru 2011

<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted>

Comisiynydd y Gymraeg

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Pages/Hafan.aspx>

Urdd Gobaith Cymru - ardal Conwy. Mae'r wefan yn cynnwys newyddion, manylion cyswllt a digwyddiadau i blant a phobl ifanc yng Nghonwy.

<https://www.urdd.cymru/cy/fy-ardal/conwy/>

Menter Iaith Conwy - <http://www.mentrauiath.cymru/mentrau/menter-iaith-conwy/?lang=cy>

Merched y Wawr - <http://merchedywawr.cymru/>

Mudiad Ysgolion Meithrin - www.meithrin.cymru

Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru - <http://www.cffi-cymru.org.uk/>

Y Lolfa - www.ylolf.com